

Cynigion Taliadau ar gyfer 2017-18

- Adroddiad Cryno ar Ymatebion i Ymgynghoriad

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun – Gwe, 8am – 6pm)

enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
www.cyfoethnaturiol.cymru

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Ceir atgynhyrchu'r ddogfen hon gyda chaniatâd ymlaen llaw gan Cyfoeth Naturiol Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad	Tudalen 3
2. Ein Cynigion	Tudalen 3
3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad	Tudalen 5
4. Newidiadau i'r Cynllun Terfynol	Tudalen 6
Atodiad 1 – Cynigion yr Ymgynghoriad ar Daliadau	
Atodad 2 – Crynodeb o Sylwadau a Dderbyniwyd ac Ymateb CNC	
Atodiad 3 – Cynnig diwygiedig llawn ar gyfer Cydymffurfiaeth Cronfeydd Dŵr	

1. Cyflwyniad

Er mwyn datblygu cynllun taliadau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-18, mae'n ofynnol ein bod yn ymgynghori ar ein cynigion ac yn ystyried yr ymatebion cyn dod i benderfyniad terfynol.

Gwnaethom gynnal ymgynghoriad 12 wythnos yn ddiweddar, a ddaeth i ben ar 13 Ionawr 2017. Cyn yr ymgynghoriad, gwnaethom gwrdd â Grŵp Ymgynghorwyr Talwyr Taliadau¹ i drafod y cynigion gyda rhai o'n prif randdeiliaid a grwpiau cynrychiolwyr. Gwnaethom weithio gyda grwpiau rhanddeiliaid sefydledig hefyd ac anfon e-byst uniongyrchol at ein cwsmeriaid a phartïon eraill â diddordeb i godi ymwybyddiaeth o'r cynigion. Trwy gydol y cyfnod ymgynghori, rhoddwyd y Dogfennau Ymgynghoriad ar ein gwefan hefyd.

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 22 ymateb a defnyddiwyd y rhain, ynghyd â'n hadborth gan grwpiau rhanddeiliaid, i ddatblygu ein cynllun terfynol ymhellach.

2. Ein Cynigion

Roedd ein dogfen ymgynghori'n amlinellu nifer o wahanol gynigion, gan gynnwys y newidiadau lleiaf i'n taliadau llinell sylfaen, newidiadau technegol i gynlluniau presennol, a thaliadau newydd.

Mae'r cynigion manwl fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad 1. Rhoddir crynodeb o'r newidiadau hynny isod:

1. Taliadau am Dynnu Dŵr

- Cynyddu'r Tâl Uned Safonol 6% i gyllido gwaith cyfalaf gan Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ar gronfeydd dŵr, dan Adran 20 Cytundebau Gweithredu Cronfeydd Dŵr, er mwyn cynnal asedau ar y lefelau priodol.

2. Diwygiadau Trwyddedu Amgylcheddol

- Diwygiadau i'r taliadau sy'n ymwneud â thrwyddedau Moch a Dofednod oherwydd newidiadau i'r broses drwyddedu ac i adlewyrchu adennill costau'n well, fel a ganlyn:

¹ Mae Grŵp Ymgynghorwyr Talwyr Taliadau yn cynnwys aelodau o wahanol sefydliadau masnach a chynrychiolwyr ein rhanddeiliaid.

Math o Dâl	Tâl Cyfredol	Tâl Arfaethedig
Ffi Ymgeisio	£3,650	£7,150 am: Mwy na 2,000 o foch >30kg Mwy na 750 o hychod Mwy na 40,000 o ddofednod £10,000 80,000 o ddofednod neu fwy
Tâl Monitro Cydymffurfiad	£1,540	£1,040
Amrywiad	£379	£379 am amrywiadau heblaw am ehangiaidau £3,500 Cynyddu nifer y llefydd i anifeiliaid ar safle lle mae: Mwy na 2,000 o foch >30kg Mwy na 750 o hychod Mwy na 40,000 o ddofednod £5,000 Cynyddu nifer y llefydd i anifeiliaid ar safle lle mae 80,000 o ddofednod neu fwy

- Diwygiadau i'r lluosyddion band cydymffurfio ar gyfer taliadau cynhaliaeth Cyfleuster Gweithrediad Gwastraff i adlewyrchu adennill costau'n well, fel a ganlyn:

Diwygiadau arfaethedig i'r lluosydd band cydymffurfio

Band Cydymffurfio	Lluosydd Band Cydymffurfio			
	Gwerth cyfredol ar gyfer safleoedd ym Mand F		Gwerth arfaethedig ar gyfer safleoedd ym Mand D, E ac F	
D	125%		200%	
E	150%		300%	
F	300%		500%	

3. Taliadau newydd

- Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswyddau newydd yn dilyn newidiadau i Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016, ac mae'r taliadau cofrestru a chydymffurfio newydd hyn yn ymgais i adennill costau ymgymryd â'r gweithgareddau hyn. Dyma'r taliadau newydd:
 - Tâl Cofrestru a Dynodi Risg o £510
 - Tâl Monitro Cydymffurfiad Blyneddol – yn seiliedig ar risg:
 - Cronfeydd dŵr risg uchel o £230
 - Cronfeydd dŵr uwch mawr nad ydynt yn cael eu hystyried yn risg uchel o £150

- Tâl newydd am Wasanaeth Cyngori Dewisol pan fydd CNC yn gwneud y penderfyniad. Mae hwn yn ychwanegol at gyngor ac arweiniad a ddarperir am ddim ar gyfer gweithgareddau rheoleiddio a bydd yn amodol ar gytundebau contract unigol rhwng CNC a'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth a chodir tâl o £125 yr awr. Nid yw'r gwasanaeth am dâl newydd hwn yn rhan o gynllun taliadau ffurfiol CNC, ond mae'n wasanaeth ychwanegol yn ôl disgrisiwn.

3. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

Gwnaethom dderbyn cyfanswm o 22 ymateb i'r ymgynghoriad.

Gellir gweld y rhestr o ymatebwyr a'u hymatebion llawn, ynghyd â sylwadau llawn gan CNC yn ymwneud â phob pwynt a godwyd yn yr ymgynghoriad, yn Atodiad 2.

Themâu Allweddol yn yr Ymatebion

Taliadau Tynnu Dŵr

Ar y cyfan, mae ymatebwyr yn deall bod angen codi taliadau, ond maent yn teimlo bod 6% yn rhy uchel ac yn awgrymu y gellid lledaenu'r costau dros gyfnod mor hir â phosibl er mwyn cadw costau i lawr.

Ffermio Dwys – Moch a Dofednod

Mynegir rhywfaint o bryder y bydd y gost uwch am ymgeisio'n cynyddu costau sefydlu sydd eisoes yn uchel hyd yn oed yn fwy ac awgrymir system i ohirio rhai costau er mwyn hwyluso hyn. Pryder ynglŷn â chodi tâl ar ddeiliaid trwyddedau am amrywiadau a orfodir gan y rheoleiddiwr a byddai'n dda gweld adolygiad o'r gwasanaeth i yrru arbedion a mwy o dryloywder, gyda thystiolaeth a data cefnogi llawer manylach. Teimladau cymysg ynglŷn ag ai'r costau sefydlu cychwynol neu'r costau am oes oedd fwyaf pwysig.

Lluosyddion Cyfleuster Gweithrediad Gwastraff

Rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad bod rhai sy'n perfformio'n wael yn talu costau uwch oherwydd yr angen i gynyddu rheoleiddio a lleihau costau i rai sy'n perfformio'n dda. Fodd bynnag, mynegir rhywfaint o bryder am gysondeb rheoleiddio a chofnodi diffyg cydymffurfiaeth.

Cydymffurfiaeth â Deddf Cronfeydd Dŵr

Mae llawer yn teimlo bod hon yn agwedd deg yn ôl pob golwg, yn arbennig o ystyried y cyfnod cofrestru am ddim. Fodd bynnag, mae rhai hefyd yn teimlo gan fod y meini prawf capasiti wedi cael eu lleihau a bod hen seilwaith yn parhau ac nad yw'r strwythurau'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau masnachol, fe all y tâl ychwanegol hwn achosi anhawster i rai gweithredwyr llai. Awgrymir y gellid cynnig

eithriad ar gyfer rhai gweithredwyr llai lle nad oes unrhyw enillion masnachol, maent eisoes yn cael eu gwirio'n flynyddol am gost gan beiriannydd, a lle ceir budd amgylcheddol. Gofynnir am fwy o eglurdeb a thystiolaeth i ddangos sut y cafodd y taliadau eu datblygu, gwell cyfathrebu gyda'r rhai sy'n cael eu heffeithio, a pha isafswm gwybodaeth sydd angen ei ddarparu ar gyfer cofrestriad.

Ceir teimlad bod system seiliedig ar risg yn deg ond mae llawer yn teimlo bod y costau'n rhy uchel, yn arbennig ar gyfer gweithredwyr llai, ac mae diffyg tystiolaeth i ddangos sut y cyfrifir y costau a beth sy'n gynwysedig ynddynt.

Cefnogaeth i'r rhaniad rhwng partïon lluosog, ar yr amod ei fod yn cael ei wneud yn eglur ac yn deg.

Taliadau Dewisol

Ceir rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig hwn, ar yr amod ei fod yn amserol ac o safon ddigonol, yn cael ei ddarparu gan unigolyn sy'n dechnegol gymwys, ac yn ddibynnol ar arweiniad addas sydd ar gael yn rhwydd. Fodd bynnag, ceir pryder hefyd y gallai fod yn andwyol i'r broses cyn ymgeisio. Mae angen sicrwydd hefyd na chaiff y cyngor ei wrthdroi yn ddiweddarach yn y broses. Mae angen mwy o eglurder ynglŷn â pha reolau y bydd hwn yn berthnasol iddynt. Mae rhai yn teimlo bod y taliad o £125 yr awr yn ormodol, bron i ddwywaith yr hyn a godir gan lawer o ymgynghorwyr, ac y byddai hwn yn rhwystro llawer o bobl rhag defnyddio'r gwasanaeth gan greu problemau ymhellach ymlaen yn y broses drwyddedu.

Y teimlad cyffredinol oedd y byddai angen i gytundebau safonedig a chytundebau penodol i safle fod ar gael.

Mae awgrymiadau ar gyfer cyfraddau consesiynol yn cynnwys sefydliadau elusennol, ceisiadau lle mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â llifogydd, gweithredwyr gyda hanes ardderchog o gydymffurfio, gwasanaethau nad ydynt yn rhai masnachol, a busnesau fferm.

4. Newidiadau ar gyfer y Cynllun Terfynol

O ganlyniad i'r broses ymgynghori ac adborth a gwaith arall a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod hwn, gwneir y diwygiadau canlynol i'r cynigion yr ymgynghorwyd arnynt, i'w cynnwys o fewn y cynllun terfynol a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog.

Cydymffurfiaeth â Deddf Cronfeydd Dŵr

Rydym wedi diwygio'r cynnig yr ymgynghorwyd arno gyda dau newid:

- estyniad o chwe mis ar gyfer y cyfnod cofrestru am ddim
- dileu unrhyw ffi flynyddol ar gyfer cynhaliaeth ar gyfer cronfeydd dŵr risg is

Er mwyn rhoi digon o amser i ni gyfathrebu manylion y cynllun taliadau i ymgymrwyr cronfeydd dŵr ac i ganiatáu mynediad rhesymol iddynt at ein

canllawiau, byddwn yn cynnwys cyfnod cofrestru am ddim o chwe mis, sy'n golygu y bydd gorfodi ffi gofrestru yn dod i rym ar 1 Hydref 2017.

Yr incwm blynyddol disgwylidig o daliad a orfodir ar gronfeydd dŵr risg is yw <£3,000. Mae ein cynnig diwygiedig yn dileu'r ffi monitro cydymffurfiad flynyddol i gronfeydd nad ydynt wedi eu dynodi'n risg uchel. Ni fydd y gost o reoleiddio'r cronfeydd dŵr risg is hyn yn cael ei thalu gan ymgymrwyr cronfeydd dŵr risg uchel a byddwn yn ceisio cyllido'r gyfran fach hon o weithgarwch o'r cymorth grant. Diwygir y Ffi Monitro Cydymffurfiad Flynyddol fel a ganlyn:

Ffi Monitro Cydymffurfiad Flynyddol	
Cronfa Ddŵr Risg Uchel	£230
Cronfa Ddŵr Uwch Fawr (dim Risg Uchel)	£0

Mae'r cynllun diwygiedig llawn yn Atodiad 3.

Atodiad 1 – Cynigion yr Ymgynghoriad ar Daliadau

1. Tynnu Dŵr

Mae Adran 20 Cytundebau Gweithredu Cronfeydd Dŵr yn bodoli i gyllido gwaith cyfalaf gan Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) ar gronfeydd dŵr fel bod asedau yn cael eu cynnal ar lefelau priodol. Mae angen gwaith uwchraddio cyfalaf ar rai cronfeydd dŵr yn dilyn archwiliadau diogelwch ac amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd hyn yn costio oddeutu £4m dros y 2-3 mlynedd nesaf. I gyllido'r gwaith yma, rydym yn cynnig ein bod yn cynyddu'r Tâl Uned Safonol (TUS) 6% yn 2017-18. Bydd y TUS yn parhau ar y lefel hon yn 2018-19 ac yna bydd yn cael ei leihau i'r lefelau cyfredol yn 2019-20, yn seiliedig ar y dybiaeth bod yr holl feysydd eraill perthnasol yn parhau'n sefydlog. Rydym yn gweithio gyda DCWW ar hyn o bryd i edrych ar ffyrdd amgen o ledaenu cost gwaith cyfalaf dros gyfnod hirach, ac felly'n lleihau'r effaith o gylchedau o doriadau a chynnydd, a fydd yn rhoi sicrwydd hirdymor i'r rhai sy'n gwneud taliadau.

2. Ffermio Dwys Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Moch a Dofednod)

Mae'r dull cyfredol o godi tâl am Ffermio Dwys yn wahanol i osodiadau eraill, gan adlewyrchu risg amgylcheddol is y gweithgaredd. Fodd bynnag, mae ein ffioedd cyfredol yn is na chost y gwaith trwyddedu a chydymffurfio sy'n ofynnol.

Mae ein taliadau cyfredol yn syrthio i ddwy adran: trwyddedu (ceisiadau ac amrywiadau) a'r taliadau monitro cydymffurfiad blynyddol. Mae ein gweithgaredd trwyddedu ar hyn o bryd yn costio tua £230,000 yn fwy i ni yn flynyddol na'r hyn y gallwn ei adennill o ffioedd y trwyddedau. Ar y llaw arall, mae ein costau cydymffurfio blynyddol yn is na'r ffioedd monitro cydymffurfiad a dderbyniwn. Mae hyn yn golygu bod gan y maes hwn ddiffyg net ar ddiwedd bob blwyddyn ariannol.

Ar yr un pryd, mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol nawr yn mynnu bod rheoleiddwyr yn cynnal archwiliadau sy'n gysylltiedig â maint y risg a achosir gan y gweithgaredd ac yn adolygu holl drwyddedau perthnasol o fewn pedair blynedd i gyhoeddiad y Dogfennau Cyfeirio Technegau Gorau sydd ar Gael (BRef). Mae'r BRef ar gyfer y sector Ffermio Dwys bron wedi'u cwblhau ac rydym yn disgwyl iddynt gael eu cyhoeddi yn gynnar yn 2017. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i ni gasglu gwybodaeth ac adolygu pob trwydded Ffermio Dwys yn erbyn y safonau yn y BRef erbyn 2021. Ariennir hyn gan ffioedd amrywiadau yn hytrach na'r tâl monitro cydymffurfiad blynyddol.

Felly, rydym yn bwriadu newid y taliadau arfaethedig i adlewyrchu cost darparu'r gwasanaeth ac adlewyrchu cost rheoleiddio yn gywir. Rydym am godi cost ymgeisio am drwyddedau newydd yn y lle cyntaf ac am amrywiadau lle mae gweithredwyr am gynyddu nifer yr anifeiliaid ar safle. Ar yr un pryd, byddwn yn lleihau'r gost o fonitro cydymffurfiad blynyddol. Byddwn yn cadw'r ffi ar y gyfradd gyfredol i bob amrywiad arall.

Mae bron i holl weithrediadau ffermio dwys yng Nghymru yn ymwneud â dofednod gydag un gweithrediad magu moch dwys yn unig. Pan fydd deiliaid trwyddedau yn cynyddu nifer yr anifeiliaid ar safle, mae'n rhaid i ni ailasesu agweddau niwsans a chynefinoedd y drwydded. Nid yw'r ffi gyfredol yn adlewyrchu'r gwaith ychwanegol sydd ei angen, felly rydym am godi ein taliadau am amrywiadau sy'n cynyddu nifer yr anifeiliaid neu adar a ganiateir.

Mae amrywiadau i gynyddu nifer y llefydd ar gyfer anifeiliaid ar ffermydd hefyd yn golygu bod yn rhaid ailasesu agweddau materion niwsans a chynefinoedd. Mae'r gwaith ychwanegol hwn yn cymryd mwy na'r hyn sy'n cael ei gynnwys gan y ffi gyfredol, felly rydym am godi'r ffi amrywiadau i £3,500 am gynnydd yn nifer y llefydd ar gyfer anifeiliaid ar safleoedd sy'n delio gyda naill ai foch neu ddofednod. Byddai cynyddu nifer y llefydd ar gyfer anifeiliaid ar safleoedd trwyddedig gyda mwy na 80,000 o adar yn costio £5,000. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan ein gwasanaeth trwyddedu ar yr amser a gymerir i bennu cais am amrywiad.

Wrth ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd am weithgareddau rheoleiddio cyfredol, ac wrth adolygu'r hyn fydd ei angen i'r dyfodol, amcangyfrifwn mai ychydig dros wyth awr y flwyddyn yn unig o weithgaredd cydymffurfio sydd ei angen i fonitro cydymffurfiad. Mae codi tâl o £1,040 bob blwyddyn yn galluogi CNC i adennill y gost o wneud hyn.

Rydym hefyd yn newid y ffordd yr ydym yn trwyddedu Ffermio Dwys, gan leihau ein costau a sicrhau bod swyddogion trwyddedu yn treulio mwy o amser ar faterion perthnasol sy'n benodol i safle. Byddwn yn rhannu trwyddedau yn adran generig, mwy penodol i sector, ac yn adran benodol i safle. Mae defnyddio dull o'r fath yn golygu ein bod yn gallu ymgynghori unwaith ar newidiadau cyffredinol mewn deddfwriaeth, safonau a dulliau. Gallwn wedyn wneud y diweddariadau hyn heb orfod adolygu pob trwydded benodol i safle yn unigol. Mae hyn yn arbed costau cyffredinol ac yn sicrhau bod trwyddedau bob amser yn gyfredol, a bod yr un gofynion ar waith ledled Cymru.

Mae'r cynigion hyn yn lleihau'r tâl monitro cydymffurfiad blynyddol i lefel sy'n cyfateb i'n costau cydymffurfiad parhaus. Mae'r newidiadau arfaethedig yn golygu bod gweithrediadau ffermio cyfredol yn ennill £500 y flwyddyn ac maent yn niwtral o ran cost i ffermydd newydd erbyn blwyddyn 7 pan maent yn cael eu cydbwysu yn erbyn y newidiadau arfaethedig i ffioedd ymgeisio. Mae'r newidiadau arfaethedig fel a ganlyn:

Math o Dâl	Tâl Cyfredol	Tâl Arfaethedig
Ffi Ymgeisio	£3,650	£7,150 am: Mwy na 2,000 o foch >30kg Mwy na 750 o hychod Mwy na 40,000 o ddofednod £10,000 80,000 o ddofednod neu fwy
Tâl Monitro Cydymffurfiad	£1,540	£1,040
Amrywiad	£379	£379 am amrywiadau heblaw am ehangtadau £3,500 Cynyddu nifer y llyfudd i anifeiliaid ar safle lle mae: Mwy na 2,000 o foch >30kg Mwy na 750 o hychod Mwy na 40,000 o ddofednod £5,000 Cynyddu nifer y llyfudd i anifeiliaid ar safle lle mae 80,000 o ddofednod neu fwy

3. Cyfleusterau Gweithrediadau Gwastraff Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol – Lluosyddion Perfformiad Gwael

Y llynedd, buom yn ymgynghori ar gynnig i ychwanegu haen ychwanegol o luosyddion ar gyfer cyfleusterau gweithrediadau gwastraff Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol sy'n perfformio'n wael. Ni weithredwyd y cynnig gan y barnwyd na fyddai'n adennill costau gwirioneddol. Fodd bynnag, mae'r angen am newid yn dal i fodoli gan nad ydym ar hyn o bryd yn adennill ein holl gostau o fewn Gweithrediadau Gwastraff Rheoliadau Trwyddedau Amgylcheddol. Un o'r prif resymau am hyn yw bod angen llawer mwy o reoleiddio i sicrhau cydymffurfiad a gwella perfformiad safleoedd sy'n perfformio'n wael.

Defnyddir y Cynllun Asesu Cydymffurfiaeth (CAC) i ddsbarthu mewn modd cyson unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfio ag amodau trwydded yn ôl ei ddifrifoldeb posibl.

- Categori 1 – diffyg cydymffurfio mewn safle a reoleiddir y rhagwelir bod posibilrwydd i hynny achosi llygredd difrifol i'r amgylchedd. Rhoddir 60 pwynt CAC am achos o dorri amodau Categori 1.
- Categori 2 – diffyg cydymffurfio mewn safle a reoleiddir y rhagwelir bod posibilrwydd i hynny achosi llygredd sylweddol i'r amgylchedd. Rhoddir 31 pwynt CAC am achos o dorri amodau Categori 2.
- Categori 3 – diffyg cydymffurfio mewn safle a reoleiddir y rhagwelir bod posibilrwydd i hynny achosi mân lygredd i'r amgylchedd. Rhoddir 4 pwynt CAC am achos o dorri amodau Categori 3.
- Categori 4 – diffyg cydymffurfio mewn safle a reoleiddir y rhagwelir bod posibilrwydd i hynny beidio ag achosi llygredd i'r amgylchedd. Rhoddir 0.1 pwynt CAC am achos o dorri amodau Categori 4.

Pennir band perfformiad cydymffurfio cyfleuster gan gyfanswm y sgôr CAC a geir drwy weithgareddau asesu cydymffurfiaeth a gofnodir ar ffurflenni Adrodd Asesu Cydymffurfiaeth drwy gydol blwyddyn galendr. Yn ogystal â hyn, rydym yn defnyddio adnodd asesu risg i werthuso risgiau gweithredol (Opra). Mae asesiad Opra yn darparu graddfa neu broffil risg a ddefnyddir gennym fel rhan o'n proses asesu cydymffurfiaeth. Gweler mwy yn adran 6.2.

Bydd cyfanswm sgôr CAC cyfleuster (a'r band cysylltiedig) yn cynyddu yn unol â'r risg gymharol a achosir a nifer yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a ganfyddir. Er enghraifft, ar gyfartaledd byddai gan safle Band D fel rheol ddeg achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 3 a nodwyd a byddai gan safle Band F fel rheol chwe achos o ddiffyg cydymffurfio Categori 2 a nodwyd. Mae'r achosion hyn o ddiffyg cydymffurfio yn dynodi'r potensial ar gyfer methiant systemig neu fethiant rheoli o ran gweithrediadau'r cyfleuster.

Mae gan holl safleoedd D, E ac F gynllun cydymffurfiaeth penodol i'r safle ar waith sy'n manylu ar y gweithredoedd â therfyn amser y cytunwyd arnynt gyda'r rheoleiddiwr, i sicrhau bod safleoedd yn gweithio tuag at wella eu perfformiad a'u cydymffurfiaeth gyda'u trwydded. Mae ein gwaith cynllunio ar gyfer defnyddio adnoddau asesu cydymffurfiaeth yn cael ei lywio gan y monitro cydymffurfiaeth y bernir ei fod yn angenrheidiol ac mae'n gymesur â'r risg a achosir gan y cyfleuster.

Mae asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen i fonitro cydymffurfiaeth gyda'r gweithredoedd a nodwyd o fewn Cynlluniau Asesu Cydymffurfiaeth wedi dangos bod lefel yr ymdrech sydd ei hangen i reoleiddio safle i wella perfformiad cydymffurfiaeth lawer yn fwy na'r incwm a gesglir ar gyfer gwneud hynny. Er enghraifft, gall safle sy'n perfformio'n wael fod angen 43 diwrnod o ymdrech reoliadol^[1] ac mae nifer sylweddol o'r safleoedd hyn yn aros yn y bandiau hyn am nifer o flynyddoedd.

Er mwyn sicrhau bod y ffioedd a godir mewn safleoedd o'r fath yn cael eu gosod ar sail adennill costau er mwyn talu am yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen i ymgymryd â'r gwaith monitro cydymffurfiaeth ychwanegol angenrheidiol, rydym yn cynnig newid i'r lluosyddion cyfredol, fel y dangosir yn y tabl isod.

Diwygiadau arfaethedig i'r lluosyddion band cydymffurfio

^[1] Amcangyfrif o'r ymdrech reoliadol gyfartalog ar gyfer perfformwyr gwael o'r Cynlluniau Asesu Cydymffurfiaeth.

Band Cydymffurfio	Lluosydd Band Cydymffurfio	
	Gwerth cyfredol ar gyfer safleoedd ym Mand D, E ac F	Gwerth arfaethedig ar gyfer safleoedd ym Mand D, E ac F
D	125%	200%
E	150%	300%
F	300%	500%

Effaith gweithredu'r newidiadau arfaethedig hyn yn achos cyfleusterau sy'n perfformio'n wael ar hyn o bryd fyddai adennill ~£87k ychwanegol (mae'r tabl isod yn dangos yr effaith fesul band), sy'n cyfateb i 694 awr (yn seiliedig ar gyfradd tâl Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yr awr o £125).

Effaith y newid arfaethedig ar dalwyr taliadau cyfredol (seiliedig ar drefniadau bilio 2015)

Band Cydymffurfio	Nifer y Trwyddedau	Cyfanswm Taliadau Cyfredol	Cyfanswm Taliadau Newydd
D	14	£35,085	£56,718
E	14	£39,498	£80,022
F	4	£36,933	£61,555
Cyfanswm	32	£111,516	£198,295

Bwriadwn gyflwyno gwriad o sgorau cydymffurfio holl safleoedd ym mand D, E ac F ar ôl y chwe mis cyntaf i weld a yw eu cydymffurfriad wedi gwella ddigon i'w symud i fand uwch ac addasu eu ffioedd hanner ffordd drwy'r flwyddyn i adlewyrchu hyn.

4. Cydymffurfiaeth â Deddf Cronfeydd Dŵr

Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn ddeddfwriaeth diogelwch cyhoeddus sy'n bodoli er mwyn gwarchod diogelwch pobl, eiddo a seilwaith drwy leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â dŵr yn cael ei ryddhau'n afreolus o gronfeydd dŵr uwch mawr. Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y cronfeydd dŵr hyn yn cael eu hadeiladu, eu newid, eu harchwilio a'u dileu dan gyfarwyddyd peiriannydd cymwys.

Mae'n ddyletswydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod ymgymerydd² cronfeydd dŵr uwch mawr yn dilyn ac yn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth. Ers Ebrill 2016, mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 wedi cyflwyno newidiadau sylweddol yng Nghymru, gan gynnwys lleihau capasiti trothwy cronfa ddŵr wedi'i rheoleiddio i 10,000 metr ciwbig, ynghyd â chyfrifoldebau rheoleiddio newydd eraill.

Rydym am gyflwyno system codi tâl haenog ar gyfer cofrestru a monitro cydymffurfriad. Bydd yna:

- Tâl Cofrestru a Dynodi Risg o £510
- Tâl Monitro Cydymffurfriad Blynyddol – yn seiliedig ar risg:
 - Cronfeydd dŵr risg uchel o £230
 - Cronfeydd dŵr uwch mawr nad ydynt yn cael eu hystyried yn risg uchel o £150

Gosodwyd y tâl arfaethedig i bob gweithgaredd i sicrhau bod modd adennill costau ar draws y system, gan adlewyrchu'r gwaith sy'n angenrheidiol yn seiliedig ar risg. Mae'r taliadau Monitro Cydymffurfriad

² Ymgymerwr yw'r term cyfreithiol ar gyfer perchnogion a gweithredwyr cronfeydd dŵr fel y'i diffinnir gan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.

Blynyddol yn cynnwys ein costau rheoleiddio parhaus ar ôl cofrestru a'r gwaith o ddynodi risg y gronfa ddŵr.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar ymgymerwyr cronfeydd dŵr i gofrestru eu cronfa ddŵr a bydd y cynigion hyn ond yn dod i rym i'r ymgymerwyr cronfeydd dŵr hynny sy'n cofrestru gyda ni ar 1 Ebrill 2017 neu ar ôl hynny. Byddwn yn gweithio i gyfathrebu'r dyddiad y daw'r newidiadau arfaethedig hyn i rym, gan annog ymgymerwyr i fanteisio ar y cyfnod cofrestru a dynodi am ddim a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017.

Cyfrifoldebau ymgymerwyr lluosog

Os oes mwy nag un ymgymerwr â chyfrifoldebau dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, cynigiwn ein bod yn codi un tâl am y gronfa ddŵr. Er mwyn osgoi costau ychwanegol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n codi un anfoneb am daliad gan holl ymgymerwyr y gronfa ddŵr. Bydd gofyn wedyn i'r holl ymgymerwyr ddsrannu costau rhyngddynt ac ni fydd CNC yn penderfynu neu awgrymu sut y dylid dosrannu'r costau hynny.

5. Gwasanaeth Cyngori Dewisol

Cyn derbyn cais am drwydded neu gydsyniad, caiff ymgeiswyr eu hannog i gysylltu â'r tîm CNC sy'n gyfrifol am y trefniadau perthnasol, a gofyn am drafodaeth cyn ymgeisio. Mae trafodaethau cyn-ymgeisio yn gallu helpu i leihau'r risg a'r ansicrwydd a wyneba ymgeiswyr wrth ymgeisio am drwyddedau ar gyfer gweithgareddau wedi'u rheoleiddio. Maent hefyd â'r potensial i wella ansawdd y cais drwy sicrhau bod ymgeiswyr yn fwy ymwybodol o ofynion rheoleiddio a pha wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi'r cais.

Rydym yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymgysylltiad cynnar ac effeithiol a'r manteision a ddaw o hyn i'n cwsmeriaid a'r amgylchedd. Fodd bynnag, bydd datblygwyr yn aml yn awyddus i ni gyfranogi ar lefel sydd tu hwnt i'n dyletswyddau statudol, neu unrhyw gyngor a ddarparwn fel rhan o'r ffi ymgeisio. Mewn achosion o'r fath, byddai'r cyngor y byddem yn ei ddarparu ar sail ddewisol ac yn atodol i'r cyngor y mae gofyn i ni ei ddarparu'n statudol.

Mae'n dod yn gynyddol anodd i ni gydbwysu'r her o ddarparu adnoddau i'r gwasanaeth dewisol hwn gyda'n gwaith statudol. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyflawni anghenion ein cwsmeriaid a darparu gwasanaeth cyson ledled Cymru, mae CNC am gynnig gwasanaeth cyngori cyn-ymgeisio dewisol i ymgeiswyr o fewn yr holl drefniadau y mae CNC yn gyfrifol am wneud penderfyniad ynddynt (a lle nad yw eisoes yn codi tâl am gyngor cyn-ymgeisio), yn amodol ar dalu tâl priodol.

Cwmpas y gwasanaeth

Ystyrir mai cyngor cyn-ymgeisio yw'r cyngor a ddarperir i ymgeisydd cyn cyflwyno cais ffurfiol (neu unrhyw gais ffurfiol arall am ganiatâd lle nad oes trefniadau ymgeisio penodol), a gall gynnwys amgylchiadau lle na fydd yr ymgeisydd yn dewis bwrw ymlaen gyda'r cais ffurfiol.

Ystyrir bod y gwasanaeth cyngori cyn-ymgeisio dewisol y codir tâl amdano:

- tu allan i unrhyw ofyniad statudol i ddarparu'r cyngor am ddim;
- tu allan i unrhyw gytundeb trefniadau penodol gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu'r cyngor am ddim; a
- thu allan i unrhyw gyngor a ddarperir dan fecanwaith ariannu arall, gan gynnwys unrhyw ffi ymgeisio.

Cyfngiadau'r gwasanaeth

Dim ond trefniadau sy'n cyhoeddi canllawiau cadarn sydd ar gael i bawb i gefnogi'r broses ymgeisio a fydd yn cael eu hystyried yn gymwys ar gyfer y gwasanaeth cynghori dewisol y codir tâl amdano.

Bydd cwmpas y cyngor dewisol sy'n briodol i'w ddarparu yn drefniant penodol, ond, fel rheoleiddiwr, ni allwn ddarparu unrhyw gyngor neu wasanaeth a allai amharu ar y modd y caiff y cais ei bennu. Felly, bydd y gwasanaeth hwn wedi'i gyfyngu i weithgareddau cynghori, ac ni fydd yn cynnwys paratoi adroddiadau i ymgeiswyr na chynnal asesiadau a ddylai fod yn rhan o'r cais.

Caiff y gwasanaeth ei gynnig yn unig ble bydd adnoddau ac arbenigedd ar gael gan CNC i ddarparu'r cyngor dewisol. Caiff y gwasanaeth ei gynnig yn ôl disgrisiwn CNC ac ni fydd rheidrwydd ar yr ymgeisydd i dderbyn y cynnig.

Nid yw defnyddio'r gwasanaeth hwn yn gwarantu y bydd trwydded yn cael ei chaniatáu.

Cost y gwasanaeth

Mae gan CNC hawl ddewisol dan Erthygl 10 y Gorchymyn Sefydlu i ddarparu cyngor, ac i godi tâl am y cyngor hwnnw. Wrth osod ffioedd a thaliadau, bydd yr egwyddorion cyffredinol a nodir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru ar waith, ac adennill costau yn llawn yw'r sail briodol ar gyfer codi tâl am gyngor cyn-ymgeisio dewisol.

Rydym wedi ceisio cyfrifo cyfradd fesul awr gyfunol ar gyfer adennill costau a fyddai'n berthnasol i nifer o drefniadau trwyddedu gwahanol. Mae mabwysiadu cyfradd fesul awr gyfunol yn cynnig eglurder i ddefnyddwyr gwasanaeth ar gostau disgwylidig gofyn am gyngor ar draws y trefniadau gwahanol.

Mae CNC wedi asesu'r costau sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth hwn. Yn seiliedig ar hyn, rydym wedi gosod cyfradd o £125 yr awr y person. Mae'r gyfradd hon yn seiliedig ar gostau staff, gorbenion, a chostau eraill a dynnir gan CNC wrth ddarparu'r gwasanaeth yn ôl disgrisiwn hwn.

Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai CNC gynnig opsiwn i ddatblygwyr dalu er mwyn penodi staff neilltuedig o fewn CNC. Bydd yr opsiwn hwn ond yn cael ei ddefnyddio mewn achosion lle gallai cynnig gwasanaeth y codir tâl amdano effeithio'n negyddol ar wasanaeth cyffredinol CNC – er enghraifft, lle byddai darparu'r gwasanaeth ar gais yn achosi i CNC orfod tynnu staff oddi ar eu dyletswyddau arferol am gyfnod estynedig.

Mae CNC yn bwriadu paratoi nifer o gytundebau safonedig a fyddai'n amlinellu'r gwasanaeth y gallem ei ddarparu. Fodd bynnag, lle y credwn fod hynny'n fwy priodol, mae'n bosibl i ni ddechrau trafodaeth cais-benodol gyda'r ymgeisydd er mwyn cytuno ar delerau ar gyfer darparu cyngor dewisol.

Gweithrediad

Rydym yn bwriadu dechrau gweithredu'r gwasanaeth o 1 Ebrill 2017; fodd bynnag, bydd y dyddiad ar gyfer cychwyn yn amrywio yn ôl y drefn reoleiddio. Byddwn ond yn cynnig y gwasanaeth gyda threfniadau yr ydym yn fodlon eu bod eisoes wedi cyhoeddi canllawiau technegol priodol. Er mwyn hwyluso'r broses, byddwn yn paratoi ac yn cyhoeddi canllawiau ar ein gwefan a fydd yn esbonio i ymgeiswyr pa wasanaeth y gallant ddisgwyl am ddim, a pha wasanaeth a ddarperir o fewn y ffi ymgeisio.

Atodiad 2 – Crynodeb o Sylwadau a Dderbyniwyd ac Ymateb CNC

Ymatebwyr

Keith Jones, Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru (ICE)
Stewart Wood, St Pierre Hotel and Country Club (StPierre)
Louise Shaw, Innogy Renewables UK Ltd (Innogy)
Andrew Sumner, Richards, Moorehead a Laing Ltd (RML)
Matthew Brown, Rheolwr Amgylchedd y DU – Uniper (Uniper)
Charles B P de Winton, CLA Cymru (CLA)
Oliver Twydell, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy (DWW)
Steve Rymill Ash Group (UK) Ltd (Ash)
Walter Simon, perchennog tir preifat (Simon)
Tim Lee, Balfours LLP (Balfours)
Allan Cuthbert, Clwb Pysgota Dyffryn Clwyd (VCAC)
Simon Hamlyn, British Hydropower Association Ltd (BHA)
David Trant, perchennog tir preifat (Trant)
Jessica Norris, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent (BGCBC)
Celine Anouilh, Sefydliad Siartredig Rheoli Gwastraff (CIWM)
Philip Griffiths, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CCBC)
P. W. Bowen, perchennog tir preifat (Bowen)
Sam Corp, Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol Cymru (WESA)
Nick Horsley, Cymdeithas Cynnyrch Mwynau Cymru (MPA)
Tony Harrington, Dŵr Cymru/Welsh Water (DCWW)
Rachel Lewis Davies, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr Cymru (NFU)
Ac un ymateb ychwanegol a fydd yn aros yn anhysbys. (Anhysbys)

Crynodeb o'r ymatebion

Cwestiwn 1. Beth yw eich barn ar lefel arfaethedig y Tâl Uned Safonol (TUS)?

Cwestiwn 2. A oes yna unrhyw resymau pam y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith andwyol ar Weithrediadau Ffermio Dwys yng Nghymru?

Ar y cyfan, mae ymatebwyr yn deall bod angen codi taliadau, ond maent yn teimlo bod 6% yn rhy uchel ac yn awgrymu y gellid lledaenu'r costau dros gyfnod mor hir â phosibl er mwyn cadw costau yn is. Nododd un ymatebwr hefyd ei bod yn annheg bod tynwyr dŵr bach yn gorfod cyfrannu at waith uwchraddio cyfalaf i gronfeydd dŵr Dŵr Cymru, ond ni fydd rhaid iddynt gyfrannu at unrhyw waith uwchraddio cyfalaf i gronfeydd preifat.

Awgrymwyd y dylai costau fod yn ddibynnol ar y defnydd o'r dŵr, e.e. costau is os yw'r defnydd er budd amgylcheddol. Lleisiodd un ymatebwr farn ar ddarparu cronfa i ddigolledu tynwyr dŵr sydd wedi eu heithrio rhag trwyddedu ar hyn o bryd os caiff eu gwaith tynnu dŵr ei wrthod neu ei gwtogi pan gaiff ei ddwyn i mewn i'r drefn drwyddedu ar gyfer tynnu dŵr dan y broses Awdurdodiadau Newydd.

Nid oes llawer o fentrau a fyddai'n cael eu heffeithio gan y newidiadau hyn yng Nghymru; fodd bynnag, mae costau sefydlu ar gyfer newidiadau o'r fath yn uchel, a bydd hyn yn cynyddu'r costau sefydlu hynny hyd yn oed ymhellach. Awgrymwyd system i ohirio rhai costau er mwyn hwyluso hyn. Nododd un ymateb efallai na fydd newid mewn niferoedd yn effeithio ar bwysau neu allyriadau cyffredinol, felly a oes angen amrywiad mewn gwirionedd? Ac mae codi £3,500 – £5,000 i'w weld yn uchel iawn am hyn. Gallai costau o'r fath ar gyfer amrywiadau, y gellid eu gwneud am resymau llesiant anifeiliaid, fod yn andwyol. Nid yw Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn credu y dylid codi tâl ar ddeiliaid trwyddedau am amrywiadau a orfodir gan y rheoleiddiwr a byddai'n hoffi gweld adolygiad

Cwestiwn 3. A yw costau sefydlu cychwynnol uwch yn andwyol o ran datblygiad neu a yw cost oes y Gweithrediad Ffermio Dwys yn cael ei hystyried?

o'r gwasanaeth i yrru arbedion a mwy o dryloywder, gyda thystiolaeth a data cefnogi llawer manylach. Mae angen ystyried effeithiau Brexit. Y ddau, ond cyfeirir at y posibilrwydd o ohirio rhywfaint o'r costau sefydlu cychwynnol.

Cwestiwn 4. Beth yw eich barn ar ein cynnig i newid y trefniadau ar gyfer Cyfleusterau Gweithrediadau Gwastraff Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol sy'n perfformio ym Mand D, E ac F?

Cefnogaeth i'r syniad o gael rhai sy'n perfformio'n wael i dalu costau cynyddol oherwydd yr angen i gynyddu rheoleiddio a lleihau costau i rai sy'n perfformio'n dda. Fodd bynnag, mynegir rhywfaint o bryder am gysondeb rheoleiddio a chofnodi diffyg cydymffurfiaeth. Awgrymwyd y dylid cynnal adolygiad cyffredinol o'r dull asesu cydymffurfiaid a bod, er enghraifft, nifer yr ymweliadau'n cael ei bennu gan y bandio ac nid gan leoliad neu ymgyrch leol. Byddai hwn yn ddull mwy teg. Awgrymodd WESA ryw fath o adolygiad annibynnol hefyd.

Cwestiwn 5. Beth yw eich barn am y lefel o daliadau a gynigir ar gyfer cofrestru a dynodi risg?

Mae llawer yn teimlo bod hon yn agwedd deg yn ôl pob golwg, yn arbennig o ystyried y cyfnod cofrestru am ddim. Fodd bynnag, mae rhai hefyd yn teimlo gan fod y meini prawf capasiti wedi cael eu lleihau a bod hen seilwaith yn parhau ac nad yw'r strwythurau'n cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau masnachol, fe all y tâl ychwanegol hwn achosi anhawster i rai gweithredwyr llai. Awgrymir y gellid cynnig eithriad ar gyfer rhai gweithredwyr llai lle nad oes unrhyw enillion masnachol (maent eisoes yn cael eu gwirio'n flynyddol gan beiriannydd ar sail cost) a lle ceir budd amgylcheddol. Mae rhai'n awgrymu bod costau'n ymddangos yn uchel, o ystyried bod llawer wedi cofrestru eisoes ac na ddylai fod angen am ffi flynyddol. Gofynnir am fwy o eglurdeb a thystiolaeth i ddangos sut y cafodd y taliadau eu datblygu, gwell cyfathrebu gyda'r rhai sy'n cael eu heffeithio, a pha isafswm gwybodaeth sydd angen ei ddarparu ar gyfer cofrestrriad.

Cwestiwn 6. Beth yw eich barn am dâl haenog, seiliedig ar risg ar gyfer monitro cydymffurfiaid blynyddol a lefel y taliadau hyn?

Ceir teimlad bod system seiliedig ar risg yn deg ond mae llawer yn teimlo bod y costau'n rhy uchel, yn arbennig ar gyfer gweithredwyr llai, ac mae diffyg tystiolaeth i ddangos sut y cyfrifir y costau a beth sy'n gynwysedig ynddynt. Mae rhai'n nodi'n glir bod hwn yn faich diangen o ystyried y gofynion presennol mewn perthynas â strwythurau o'r fath. Mae rhai'n teimlo bod y dull hwn yn wrthgynhyrchiol i gyflawni nodau mewn perthynas â rheoli dŵr.

Cwestiwn 7. Beth yw eich barn am yr ymagwedd sy'n gofyn i ymgymerwyr lluosog ddosrannu costau rhyngddynt?

Rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad hwn fel dull rhesymol. Fodd bynnag, mae rhai partïon yn pryderu am anghydfodau ac yn nodi y gallai achosi oedi mewn taliadau. Ceir rhai cwmnïau hefyd nad ydynt yn fodlon talu anfonebau yn rhannol. Rhywfaint o bryder ynglŷn â sut y byddai costau'n cael eu dyrannu ac awgrym mai mater i'r partïon perthnasol ei ddatrys fyddai hwn yn hytrach na CNC.

Cwestiwn 8. Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer gwasanaethau

Rhywfaint o gefnogaeth i'r cynnig hwn, ar yr amod ei fod yn brydlon ac o safon ddigonol. Fodd bynnag, ceir pryder hefyd y gallai fod yn andwyol i'r broses cyn ymgeisio. Mae hefyd yn dibynnu ar gael cyfarwyddyd addas ar gael a byddai'n annheg gorfodi taliadau os nad oedd canllawiau ar gael

cynghori cyn-ymgeisio ac a ydych yn credu eu bod yn fanteisiol i'r ymgeisydd, gan arwain at geisiadau o ansawdd gwell?

neu ei fod o natur dechnegol cymaint is nes byddai'n rhaid i ymgeiswyr gysylltu â CNC. Bydd angen disgyblaeth o ran faint o amser mae'n ei gymryd i'w ddarparu ac i sicrhau ei fod o ansawdd digonol ac yn cael ei ddarparu gan unigolyn sy'n dechnegol gymwys. Mae angen sicrwydd hefyd na chaiff y cyngor ei wrthdroi yn hwyrach yn y broses. Mae angen mwy o eglurder ynglŷn â pha reolau y bydd hwn yn berthnasol iddynt. Mae rhai yn teimlo bod y taliad o £125 yr awr yn ormodol, bron i ddwywaith yr hyn a godir gan lawer o ymgynghorwyr, ac y byddai hwn yn rhwystro llawer o bobl rhag defnyddio'r gwasanaeth gan greu problemau ymhellach ymlaen yn y broses drwyddedu.

Cwestiwn 9. Beth yw eich barn ar gytundebau safonedig ar gyfer darparu'r gwasanaeth, ac a ydynt yn well na thrafodaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar geisiadau?

Rhywfaint o gefnogaeth i hyn ond angen mwy o fanylion. Fodd bynnag, ni fyddai'n addas mewn llawer o achosion, felly mae angen i gytundebau safonedig a chytundebau penodol i safle fod ar gael.

Cwestiwn 10. Pe byddai CNC yn cynnig cyfraddau consesiynol, dan ba amgylchiadau y dylai'r consesiynau gael eu defnyddio?

Mae awgrymiadau'n cynnwys sefydliadau elusennol, ceisiadau lle mae gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â llifogydd, gweithredwyr gyda hanes ardderchog o gydymffurfio, gwasanaethau anfasnachol a busnesau fferm.

Ymatebion Llawn

Cwestiwn 1. Beth yw eich barn ar lefel arfaethedig y Tâl Uned Safonol (TUS)?

ICE – Mae 6% yn llawer rhy uchel, dylid ei gadw ar uchafswm o raddfa chwyddiant.

St Pierre - Gan mai un o'r amcanion yw bod yn amgylcheddol gyfrifol, oni ddylid cael cyfraddau gwahanol ar gyfer tynnu dŵr yn seiliedig ar y defnydd o'r dŵr a dynnir? Rydym wedi cael ein hardystio fel noddfa amgylcheddol gan Audubon International ers blynyddoedd lawer. Defnyddir canran uchel o'r dŵr a dynnir gan ein trwyddedau i gynnal lefel ein llyn addurnol (artesiaidd), sydd yn ei dro'n darparu amrywiaeth o gynefinoedd amgylcheddol, a choridorau bywyd gwyllt i ganiatáu llwybr mwy diogel at ddŵr i fywyd gwyllt. Caiff gweddill y dŵr a dynnir gennym ei ddychwelyd i'r tir i gynnal glaswellt, coed a phlanhigion iach ar ein hystâd.

Nid wyf yn sicr a ydych yn gweithredu gwahanol gyfraddau ar gyfer tynnu dŵr yn seiliedig ar y defnydd terfynol ohono unwaith iddo gael ei dynnu, ond byddwn yn gweld eich swyddogaeth chi o annog defnydd amgylcheddol cyfrifol o'r dŵr sy'n cael ei dynnu trwy daliadau amrywiol fel arf cymharol gryf i annog defnydd cyfrifol o'r dŵr yn y pen draw.

Mae cynnydd 6% am ddŵr a gaiff ei godi o'r ddaear a'i ddychwelyd i'r ddaear er budd yr amgylchedd naturiol yn y broses (sy'n golygu bod ein gwaith tynnu dŵr a'r defnydd o'r dŵr yn fwy buddiol na phe na bai'n cael ei dynnu o gwbl) o fewn yr un ardal dalgylch dŵr yn ymddangos i fod braidd yn ormodol.

Innogy – Dim sylw

Anon – Dim problemau

RML – Dim sylw

UNIPER – Dim sylw

CLA – Nid yw'r maes hwn yn achosi pryder mawr i'n haelodau, ond mae angen i unrhyw gynnydd yn strwythur y ffioedd fod yn gyfrifadwy a chyfiawn. Mae'n bwysig fod taliadau digolledu y mae angen eu talu oherwydd bod eithriadau tynnu dŵr presennol yn cael eu tynnu'n ôl yn cael eu talu'n llawn ac ar gyfradd y farchnad. Os oes angen sefydlu cronfa er mwyn cyflawni hyn yna mae hynny'n iawn. Fodd bynnag, os oes cyllid dros ben ar ddiwedd y cyfnod sydd uwchben a thu hwnt i'r hyn sydd ei angen yna rhaid lleihau'r gyfradd yn y dyfodol o ganlyniad.

DVW – Rydym yn deall yr angen am godi'r TUS oherwydd y gwaith cyfalaf sydd ei angen yn Llyn Brenig a Llyn Celyn. Byddem yn gofyn bod y gost yn cael ei lledaenu dros gyfnod mor hir â phosibl er mwyn lliniaru'r effaith ar gyllidebau.

Ash – Dim sylw

Simon – Mae'n ymddangos braidd yn groes i'r graen bod rhaid i mi fel tynnwr dŵr bach gyfrannu at waith uwchraddio cyfalaf i gronfeydd Dŵr Cymru, ond ni fydd rhaid iddynt gyfrannu at unrhyw waith uwchraddio cyfalaf i'm cronfa ddŵr i, yn arbennig gan fod y gwaith uwchraddio er budd holl gwsmeriaid Dŵr Cymru, nid y tynwyr dŵr yn unig.

Balfours – Dim sylw

VCAC – Dim sylw

BHA – Dim sylw

Trant – Dim sylw

BGCBC – Dim sylw

CIWM – Dim sylw

CCBC – Dim sylw

Bowen – Rwy'n deall eich sefyllfa ond ni ddylid caniatáu i hyn gael effaith andwyol ar weithgareddau.

WESA – Dim sylw

MPA – Dim sylw

DCWW – Nodwn mai'r prif sbardun ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn y Tâl Uned Safonol yw'r taliadau a ailgodir gan Dŵr Cymru dan gytundebau gweithredu Adran 20. Mae'r gwaith cyfalaf rydym yn ei gynnal yn ofynnol gan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 ac yn hanfodol er mwyn cynnal diogelwch y cyhoedd. Bydd y buddsoddiad hwn yn ein hasedau'n caniatáu i ni gynnal y gwasanaethau rheoleiddio afonydd rydym yn eu darparu er budd pob tynnwr dŵr ar yr afonydd hynny.

Mae Dŵr Cymru'n rhannu amcan cyffredin gyda CNC i gael taliadau rhagweladwy yn y blynyddoedd i ddod. Cyn cyhoeddi'r ymgynghoriad hwn, roeddem yn falch o allu cytuno ar ad-daliad o £1.5 miliwn i CNC, sydd wedi gallu gwneud iawn am yr hyn a fyddai wedi bod yn gynnydd uwch mewn taliadau ar gyfer 2017/19 a 2018/19 fel arall, ac rydym yn gweithio gyda'ch swyddogion yn awr i ddarparu'r amcangyfrifon gorau posibl o'r costau gwaith cyfalaf yn y dyfodol, a ble bynnag y bo'n bosibl, i ledaenu costau dros gyfnod hwy o amser.

NFU – Dim sylw

Ymateb CNC

Cynnydd TUS

Wrth adolygu ein ffioedd a thaliadau, mae'n rhaid i ni ystyried yr holl gostau perthnasol yn ogystal â chwyddiant. Yn yr achos hwn, mae gennym rwymedigaeth gyfreithiol dan Adran 20 Cytundebau Gweithredu Cronfeydd Dŵr i gyllido unrhyw waith cyfalaf i wella diogelwch. Er bod hyn yn ofynnol gan y gyfraith, mae'r cronfeydd dŵr perthnasol hefyd yn darparu manteision ychwanegol y tu hwnt i gyflenwi dŵr i gwsmeriaid Dŵr Cymru, megis:

- Amddiffyn yr amgylchedd yn well
- Gwell amwynder a hamdden

- Cynnydd yn sicrwydd llif yr afon i dynwyr dŵr (nid Dŵr Cymru yn unig)
- Rheoli sychder yn well

Yn dilyn yr ymgynghoriad, bydd y cynnydd i'r TUS yn parhau ar 6%.

Diben Tynnu Dŵr

Nid yw ein trefn taliadau bresennol yn ystyried diben y gwaith tynnu dŵr. Caiff y taliad tynnu dŵr blynyddol ei gyfrifo yn ôl cyfaint, y ffactor tâl priodol, a'r Tâl Uned Safonol. Mae'r ffactor tâl yn cynnwys sawl pwysoliad, gan gynnwys ffactor colled sy'n ymwneud ag at ba ddiben yr awdurdodir y dŵr i gael ei ddefnyddio dan y drwydded, ac mae'n cynnwys pedwar categori: colled uchel, colled ganolig, colled isel a cholled isel iawn. Mae'r categorïau hyn yn dibynnu ar faint o ddŵr sy'n cael ei ddychwelyd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw ffynhonnell cyflenwad. Mewn gwirionedd, mae hyn yn golygu costau is i dynwyr dŵr lle caiff dŵr ei ddychwelyd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, i unrhyw ffynhonnell cyflenwad. Ceir mwy o wybodaeth yn y cynllun taliadau tynnu dŵr.

Eithriadau

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar wahân sy'n ymdrin â newidiadau i eithriadau trwyddedu tynnu dŵr, 'Awdurdodiadau Newydd'. Mae'r dull a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori'n ystyried unrhyw beryglon digolledu posibl os caiff gwaith tynwyr dŵr presennol ei wrthod neu ei gwtogi. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfarwyddyd i Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflenwi mecanwaith cyllido i gefnogi costau digolledu posibl a all godi yn ystod y cyfnod o roi'r newidiadau hyn ar waith. Disgwylir y bydd y Tâl Uned Gwella'r Amgylchedd yn chwarae rhyw ran o leiaf yn y broses hon, ond caiff manylion hyn eu cadarnhau yn yr ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad, sydd i fod i gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni yn amodol ar gymeradwyaeth gan Weinidogion. Byddwn yn parhau i adolygu ein Cynllun Codi Tâl ac, os bydd angen newid, byddwn yn ymgynghori ar yr adeg briodol.

Cwestiwn 2. A oes yna unrhyw resymau pam y byddai'r newidiadau hyn yn cael effaith andwyol ar Weithrediadau Ffermio Dwys yng Nghymru?

ICE – Dim sylw

St Pierre – Dim sylw

Innogy – Dim sylw

Anhysbys – Dim sylw

RML – Dim sylw

UNIPER – Dim sylw

CLA – Ychydig iawn o fentrau o'r math hwn yng Nghymru sy'n hysbys i ni. Fodd bynnag, gyda Brexit ar y gorwel a'r symudiad posibl mewn arfer ffermio a fydd yn dilyn, bydd sicrhau nad oes unrhyw gostau/rhwysterau rheoleiddio diangen i gyfyngu ar fynediad at y cyfleoedd newydd hyn yn bwysig i'r sector ffermio yng Nghymru.

Wrth ystyried datblygiad o'r math hwn yng Nghymru, bydd costau datblygu uchel yn ymwneud â chynllunio; mae'r rhain yn cynnwys yr holl adroddiadau a gwaith monitro ychwanegol sy'n ofynnol gan y broses gynllunio yn awr. Bydd y codiad ychwanegol arfaethedig hwn yn nhaliadau CNC yn ergyd i'r datblygwr ar ddechrau unrhyw brosiect, cyn unrhyw incwm gan y busnes, gyda'r posibilrwydd o wneud penderfyniadau am fuddsoddi'n fwy ansicr. A oes system neu opsiwn y gellid ei fabwysiadu er mwyn i ddatblygwr allu gohirio rhai o'r costau hyn dros gyfnod o ddwy i dair blynedd i osgoi'r holl gostau sefydlu hyn rhag bwrw'r busnes yn y cyfnod cynnar?

DVW – Dim sylw

Ash – Dim sylw

Simon – Dim sylw

Balfours – Dim sylw

VCAC – Dim sylw

BHA – Dim sylw

Trant – Efallai y bydd angen amrywiad yn niferoedd yr adar oherwydd bod adar yn cael eu magu i bwysau ysgafnach, felly mae gan y safle'r potensial i fagu mwy o adar. Efallai na fydd cynnydd yn y pwysau cyffredinol a gynhyrchir, yr un fath ag allyriadau. A oes rhaid i chi godi £3,500 – £5,000 am newid o'r fath mewn gwirionedd?

Yn yr un modd, a fydd newidiadau fel capasiti ffan ychwanegol neu newidiadau eraill y gellid bod eu hangen i'r offer presennol oherwydd gwelliant technolegol neu am resymau llesiant fod yn destun taliadau mawr? Gallai hyn fod yn andwyol i uwchraddio adnoddau.

BGCBC – Dim sylw

CIWM – Dim sylw

CCBC – Dim sylw

Bowen – Dim sylw

WESA – Dim Sylw

MPA – Dim Sylw

DCWW – Dim sylw

NFU – Mae NFU Cymru'n nodi cynigion CNC i newid y Cynllun Codi Tâl Trwyddedu Amgylcheddol ar gyfer 2017-18 ar gyfer Ffermio Dwys (Moch a Dofednod). Rydym yn falch bod CNC yn cydnabod bod gweithgareddau dan drwyddedau Ffermio Dwys yn weithgaredd risg amgylcheddol is na llawer o weithrediadau trwyddedig eraill. Dylid adlewyrchu'r lefel isel hon o risg yn y drefn codi tâl.

Nodwn fod taliadau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Ffermio Dwys yn syrthio i ddwy adran: trwyddedu (ceisiadau ac amrywiadau) ynghyd â'r taliadau monitro cydymffurfriad blynyddol. Nodwn ymhellach fod gweithgareddau trwyddedu Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Ffermio Dwys yn costio £230,000 y flwyddyn yn fwy ar hyn o bryd na ffioedd trwyddedu, tra bod costau cydymffurfriad blynyddol yn is na'r ffioedd monitro cydymffurfriad a dderbynnir mewn gwirionedd. Byddai NFU Cymru'n gwneud y sylwadau canlynol:

- Os yw ffioedd cyfredol yn is na'r costau, felly, yn unol ag egwyddorion codi tâl, dylai CNC adolygu'r gwasanaeth i yrru arbedion. Byddai adolygiad o'r fath yn amlygu'r cyfleoedd i leihau'r amser a dreulir neu'r agwedd a gymerir tuag at rai agweddau trwyddedu neu fonitro cydymffurfriad.
- O ran amrywiadau i drwyddedau lle y cynyddir nifer y llefydd i anifeiliaid, nodwn o'r ymgynghoriad fod y ffigyrau'n seiliedig ar ddata a gasglwyd gan y gwasanaeth trwyddedu ynglŷn â'r amser a gymerir i wneud penderfyniad ar gais i amrywio, ond ni ddarperir y data hwn. Mae hyn yn peri pryder mawr i ni. Heb y manylyn hwn, er enghraifft, nid yw'n bosibl pennu ai nifer fechan o amrywiadau trwyddedu cymhleth iawn sy'n gogwyddo'r ffigyrau ac yn creu cost gyfartalog llawer uwch. Mae methu â darparu'r wybodaeth fanwl hon yn tanseilio tryloywder yn y gwasanaeth codi tâl. Yng nghyd-destun y cynnydd decplyg mewn ffioedd, mae egwyddor tryloywder yn hollbwysig i gwsmeriaid CNC.
- Yn yr un modd, nodwn na ddarparwyd data i ddangos sail i'r newid arfaethedig i'r tâl monitro cydymffurfriad. Mae'n hanfodol bod gennym fynediad at y dadansoddiad manwl er mwyn llwyr ddeall y dystiolaeth y tu ôl i'r cynigion ar ran ein haelodau.
- Nodwn o fewn Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Ffermio Dwys fod CNC yn bwriadu rhannu trwyddedau yn adran fwy generig, adran benodol i sector ac adran benodol i safle. Fodd bynnag, ni ddarperir unrhyw wybodaeth ar yr arbedion effeithlonrwydd disgwyliedig sy'n debygol o ddilyn a sut bydd y rhain yn cael eu hadlewyrchu yn y drefn codi tâl. Pwysleisw'n fod angen rhoi sylw i effeithlonrwydd y gwasanaeth trwyddedu trwy'r broses

ymgyngori - ni fydd codi ffioedd yn unig yn unioni unrhyw ddiffygion sylfaenol yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei redeg.

- Mae angen hefyd ystyried costau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Ffermio Dwys ochr yn ochr â'r costau buddsoddi sylweddol eraill i fusnesau ffermio sy'n arallgyfeirio neu'n ehangu yn y sector hwn. Mae hyn y cynnwys ffioedd cynllunio ac ymgynghori. Gall ffioedd ymgynghori ar eu pennau eu hunain ar gyfer Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol Ffermio Dwys fod yn filoedd o bunnau. Mae ein haelodau'n pwysleisio bod y broses yn llawer rhy gymhleth i ymgymryd â hi heb gyngor allanol; maent hefyd yn pwysleisio nad yw'r cyfnod penderfynu yng Nghymru'n gymaradwy â'r cyfnod yn Lloegr. Dylai'r angen i ystyried effeithlonrwydd y broses fod yn ystyriaeth allweddol, fel y dylai ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.
- Nid yw NFU Cymru'n credu y dylai deiliaid trwyddedau fod yn destun taliadau amrywio o ganlyniad i amrywiadau i drwyddedau a orfodir arnynt gan y rheoleiddiwr. Mae hyn yn cynnwys yr adolygiad trwydded BRef.
- Barn gyffredinol NFU Cymru yw bod diffyg tryloywder yn y cynigion a dylid ymdrechu ymhellach i leihau costau trwy arbedion o fewn y gwasanaeth trwyddedu.

I gloi, mae NFU Cymru'n pwysleisio bod y sector dofednod yn cynnig cyfleoedd i lawer o deuluoedd ffermio arallgyfeirio eu hincwm mewn ymateb i gyfleoedd yn y farchnad. Mae hyn yn creu cydnherthedd busnes, sy'n bwysicach nag erioed yng nghyd-destun Brexit a'n cyfnod pontio o'r UE. Byddai NFU Cymru'n pwysleisio na ddylid defnyddio'r drefn reoleiddio a chodi tâl fel mecanwaith i atal neu rwystro datblygiad busnes ffermio yng Nghymru.

Ymateb CNC

Mae'r taliadau ymgeisio'n cael eu cynyddu i dalu costau asesu ceisiadau i sicrhau nad oes unrhyw effaith amgylcheddol andwyol. Byddai gohirio'r gost dros nifer o flynyddoedd yn arwain at ddiffyg yn y pwrs cyhoeddus yn hytrach na chodi'r tâl pan geir costau.

Ni fydd y gost gynyddol ond yn berthnasol i osodiadau newydd neu osodiadau presennol sydd am gynyddu nifer y llefydd ar gyfer anifeiliaid. Bydd angen asesiad bob tro y cynyddir nifer y llefydd ar gyfer anifeiliaid er mwyn sicrhau bod y cyhoedd a'r amgylchedd yn cael eu gwarchod ac felly bydd angen mynd i gostau. Fodd bynnag, lle nad oes angen asesiad ar amrywiad syml, ni chodir unrhyw dâl.

Yn ogystal â hyn, mae'n ofynnol bod CNC yn adolygu trwyddedau'n o dro i dro i sicrhau eu bod yn addas i'r diben ac yn cyflenwi'r Technegau Gorau sydd ar Gael. Mae'r gwaith hwn yn golygu mynd i gostau a byddai angen codi taliadau amrywio.

Mae cymhlethdod asesu cais am drwydded neu amrywiad yn codi o ganlyniad i'r effaith bosibl y gallai'r gosodiad ei chael gan fod gan allyriadau o ffermio dwys y potensial i gael effaith andwyol ar yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd ac felly mae angen asesu'r effeithiau hyn yn iawn. O'u cymharu â sectorau eraill yn y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, mae'r taliadau ar gyfer Ffermio Dwys yn isel iawn.

Fel rhan o'r adolygiad o daliadau, rydym yn newid y ffordd rydym yn trwyddedu Ffermio Dwys trwy gyflwyno adran generig i'r drwydded. Bydd hyn yn gwneud y gwasanaeth trwyddedu'n fwy effeithlon ac yn lleihau nifer yr amrywiadau sydd eu hangen, ac felly'n lleihau costau, ac mae hyn wedi cael ei ystyried yn y cynllun taliadau arfaethedig. Fel y nodwyd, rydym mewn diffyg ariannol ar hyn o bryd a bydd cyfuniad o gynyddu'r taliadau cyffredinol a lleihau ein costau'n mynd i'r afael â hyn.

Mae'r newidiadau wedi cael eu cyfrifo'n defnyddio'r amser cyfartalog mae swyddog yn ei dreulio'n penderfynu ar drwydded i amrywio ar gyfer y sector ffermio dwys. Ni fydd cynllun codi tâl penodol i safle'n rhoi eglurder i weithredwyr a bydd yn anodd iawn ei reoli, gan arwain at gostau cyffredinol uwch i'r sector a chostau uwch mewn meysydd penodol, a fydd yn arwain at anghysondebau o ran taliadau daearyddol.

Mae CNC mewn cysylltiad â llywodraethau Cymru a'r DU ynglŷn ag effaith Brexit a cheir neges glir bod rhaid i ni gynnal ein safonau amgylcheddol a sicrhau cydymffurfiaid â deddfwriaeth y DU sy'n

ymgorffori cyfraith yr UE ar hyn o bryd. Byddwn yn ymateb yn briodol wrth i'r sefyllfa hon newid. Yng Nghymru, mae gennym gyfrifoldebau hefyd dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac er mwyn i ni gyflawni'r dyletswyddau hyn, bydd angen i ni barhau i asesu ceisiadau am drwyddedau ac ehangiaidau i ffermio dwys yn ofalus a bydd y taliadau hyn yn ein galluogi ni i wneud hynny y tu hwnt i ymadawiad Prydain o Ewrop.

Cwestiwn 3. A yw costau sefydlu cychwynnol uwch yn andwyol o ran datblygiad neu a yw cost oes y Gweithrediad Ffermio Dwys yn cael ei hystyried?

ICE – Dim sylw

St Pierre – Dim sylw

Innogy – Dim sylw

Anhysbys – Dim sylw

RML – Dim sylw

UNIPER – Dim sylw

CLA – Fe'ch cyfeiriaf at y pwyntiau a godwyd uchod. A ellir cynnig opsiwn i ohirio rhai o'r costau'n rhannol dros y ddwy neu dair blynedd gyntaf, i gynorthwyo rhagolygon llif arian?

DVW – Dim sylw

Ash – Dim sylw

Simon – Dim sylw

Balfours – Dim sylw

VCAC – Dim sylw

BHA – Dim sylw

Trant – Dim sylw

BGCBC – Dim sylw

CIWM – Dim sylw

CCBC – Dim sylw

Bowen – Costau am oes

WESA – Dim sylw

MPA – Dim sylw

DCWW – Dim sylw

NFU – Gweler Cwestiwn 2.

Ymateb CNC

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 2 uchod.

Cwestiwn 4. Beth yw eich barn ar ein cynnig i newid y trefniadau ar gyfer Cyfleusterau Gweithrediadau Gwastraff Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol sy'n perfformio ym Mand D, E ac F?

ICE – Maen nhw'n dderbyniol yn ôl pob golwg.

St Pierre – Dim sylw

Innogy – Dim sylw

Anhysbys – Dim sylw

RML – Dim sylw

UNIPER – Dim sylw

CLA – Mae CLA yn cefnogi eich cynnig gan ei bod yn amlwg bod angen mwy o amser ac adnoddau ar y rhai sy'n perfformio'n wael. Pam fod rhaid i'r rhai sy'n perfformio'n dda roi cymorth i'r rhai sy'n perfformio'n wael? Mae agweddau ac ymddygiad yn newid fel arfer pan fydd costau'n cynyddu. Dylid annog perfformiad da gyda llai o gostau.

DVW – Dim sylw

Ash – Mae ASH Group (UK) Ltd yn gwrthwynebu'r cynnig hwn. Er ein bod yn deall yr angen i Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) weithredu'n effeithlon, nid oes cyfiawnhad dros y cynnydd arfaethedig mewn prisiau, yn arbennig graddfa'r cynnydd. Yn ein profiad ni, a phrofiad gweithredwyr eraill yng Nghymru rydym wedi siarad â nhw, mae anghysondeb amlwg yn agwedd ac adborth gwahanol swyddogion a'r dull a ddefnyddir ganddynt i adrodd am gydymffurfiaeth. Mae hyn yn arwain at anghysondeb o ran yr Adroddiadau Asesu Cydymffurfiaeth a dderbynnir gan weithredwyr, sy'n cael effaith uniongyrchol ar y band Opra a bennir ar gyfer safle.

Rydym o'r farn y bydd y diwygiad arfaethedig i'r ffioedd mewn gwirionedd yn arwain at gofnodion o ddifffyg cydymffurfiaid annheg a gormodol gan swyddogion CNC, yn arbennig gan fod y rhan fwyaf o achosion o ddifffyg cydymffurfio'n 'ganfyddedig gan swyddog awdurdodedig' ac nid o anghenraid yn seiliedig ar ffeithiau go iawn. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer gweithredwyr llai nad oes ganddynt efallai yr adnoddau, ariannol neu staffio, neu'r wybodaeth ddigonol i herio ffurflenni Adroddiadau Asesu Cydymffurfiaeth. Gallai'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd cynhaliaeth arwain at yrru busnesau bach allan o fusnes mewn gwirionedd.

Mae ASH hefyd yn teimlo bod angen adolygiad cyflawn o'r mecanwaith asesu cydymffurfiaid, yn hytrach na'i ddefnyddio fel cyfle i gynyddu adennill costau i CNC yn unig. Mae'r system bresennol yn llawer mwy tebygol o gosbi gweithredwyr yn hytrach na rhoi cymorth iddynt gydymffurfio. Er mwyn ei gwneud yn system decach, credwn y dylid pennu nifer yr ymweliadau gan swyddog yn ôl y bandio. Er enghraifft, unwaith y flwyddyn ar safle Band A, dwywaith ar safle Band B ac ati. Rydym yn gwerthfawrogi bod ymweliadau'n cael eu cynnal weithiau mewn ymateb i gwynion, ond teimlwn fod hyn yn rhywbeth y gellid ymchwilio iddo. Byddai hyn yn cymharu safleoedd ar sail gyfartal. Gwyddom yn anecdotaidd fod rhai safleoedd yn destun mwy o arolygiadau am y rheswm syml eu bod yn agos at fan gwaith neu gartref swyddog CNC.

Simon – Dim sylw

Balfours – Dylid annog perfformiad da gyda llai o gostau i rai sy'n perfformio'n dda.

VCAC – Dim sylw

BHA – Dim sylw

Trant – Dim sylw

BGCBC – Dim sylw

CIWM – Mae CIWM Cymru Wales yn cydnabod bod y mater hwn yn rhan o'r ymgynghoriad ar ffioedd a thaliadau 2016-17, a gwnaethom nodi yn ein hymateb fod "CIWM yn cefnogi'r syniad y dylid codi ffioedd a thaliadau sylweddol uwch ar safle sy'n syrthio i'r categorïau sy'n perfformio'n salach ac yn aros yno am fwy na dwy flynedd yn olynol." Nid yw'n syndod i CIWM Cymru Wales bod lefel yr ymdrech sydd ei hangen i reoleiddio safle i wella perfformiad cydymffurfio yn llawer uwch na'r incwm a gesglir at y diben hwnnw. Mae CIWM Cymru Wales yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn y lluosydd band cydymffurfio ar gyfer safleoedd band D E ac F a'r adolygiad o berfformiad y safleoedd hyn bob chwe mis i archwilio a all y safleoedd hyn symud i fand uwch i adlewyrchu'r gwelliannau mewn perfformiad ac felly elwa ar ostyngiad mewn ffioedd yn ystod y flwyddyn. Rhaid aros i weld a all y safleoedd sydd wedi bod yn perfformio'n wael am nifer o flynyddoedd wella eu perfformiad yn barhaus. Mae CIWM Cymru Wales yn tybio y byddai safleoedd sy'n gwella eu cydymffurfiaeth dros dro ond yna'n syrthio'n ôl mewn cyfnodau dilynol yn destun taliadau lluosydd cydymffurfio uwch yn y flwyddyn ddilynol. Nid yw hyn yn cael ei nodi yn y papur ymgynghoriad, felly byddem yn croesawu esboniad ar y mater hwn yn y cynllun terfynol cyhoeddedig.

CCBC – Dim sylw

Bowen – Dim sylw

WESA – Yn gyffredinol, mae WESA yn cefnogi mesurau i dargedu gweithredwyr sy'n perfformio'n wael yn gyson ac sy'n gwneud ychydig neu ddim ymdrech i gael safleoedd i gydymffurfio. Rydym

hefyd yn deall bod angen i CNC ddefnyddio'i adnoddau yn y meysydd iawn ac i sicrhau bod costau'n cael eu hadennill.

Mae WESA'n cydnabod yr her sy'n wynebu CNC wrth geisio targedu gweithredwyr sy'n perfformio'n wael yn y categori hwn ond credwn y dylai geisio gwahaniaethu rhwng arferion diofal gweithredwyr esgeulus a'r gweithredwyr hynny sy'n rheoli safleoedd heriol yn briodol i safonau amgylcheddol achrededig fel ISO 14001.

Rydym yn pryderu'n benodol am yr effaith economaidd bosibl ar rai cyfleusterau tirlenwi. Nid yw'r system bresennol ar gyfer rheoleiddio tirlenwi'n gwbl addas ar gyfer safleoedd tirlenwi, mewn cyferbyniad â chyfleusterau gosodedig, wedi eu hadeiladu, oherwydd maint ffisegol y safleoedd, eu pwyntiau allyriadau a monitro lluosog, ac amllder gwaith monitro. Pan droisir y ffactorau hyn yn sgoriau cydymffurfiad, ceir argraff anghyfartal a charmarweiniol yn aml o niwed/risg amgylcheddol wirioneddol mewn cymhariaeth â chyfleusterau eraill a reoleiddir ac nid yw'n ymddangos bod digon o 'hyblygrwydd' i addasu'r cymhlethdodau sy'n codi'n benodol mewn safleoedd tirlenwi. Rydym yn pryderu felly y gallai'r cynnydd arfaethedig mewn taliadau gael effaith sylweddol ar rai gweithredwyr tirlenwi a gallai arwain at ailgyfeirio cyllid o feysydd eraill, megis gwelliant amgylcheddol. Mae WESA wedi dechrau trafodaethau ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr ynglŷn â datblygu system fwy priodol o reoleiddio ar gyfer tirlenwi a byddem yn gobeithio ymgysylltu â CNC ynglŷn â datblygu rheoleiddio tebyg yng Nghymru hefyd.

Yn anffodus, hoffai WESA nodi hefyd y gall cwmnïau cyfreithiol gydgyssylltu ymgyrchoedd lleol ar faterion fel arogl, a all arwain at sgoriau gwaeth i rai safleoedd er na chafwyd unrhyw newid materol yn effaith amgylcheddol y safle.

Rydym yn pryderu hefyd am ddiffyg adolygiad annibynnol o'r drefn codi tâl arfaethedig ac am y ffaith y gallai anghysondebau rheoleiddio arwain at daliadau sylweddol uwch i rai gweithredwyr. Byddai'n well gennym weld proses adolygu annibynnol briodol ar gyfer yr asesiad cydymffurfiad gan CNC. Yn yr un modd, mewn sefyllfaoedd lle ceir gwrthwynebiad sylweddol yn lleol i gyfleuster, gallai hyn fod yn ysgogiad ychwanegol i bobl gwyno gan wybod y bydd hyn yn cynyddu'r ymdrech reoleiddiol sydd ei hangen ac yn golygu goblygiadau cost uniongyrchol i'r gweithredwr. Byddem yn croesawu esboniad ynglŷn â pha fesurau diogelu fydd yn cael eu rhoi ar waith i reoli'r senario posibl hwn.

Yn ogystal, gall sgoriau Opra fod yn oddrychol a rhaid i CNC allu dangos bod sgoriau'n cael eu dyrannu'n briodol ac yn gyson gan swyddogion CNC. Mae methodoleg a sgoriau cydymffurfiaeth yn seiliedig ar y canllawiau ond mae elfen benodol i safle'n perthyn i'r gwaith hwn hefyd.

MPA – Dim sylw

DCWW – Yn unol â'n sylwadau a wnaed ar y cynllun taliadau arfaethedig 2016/17, rydym yn cefnogi'r cynnig i bennu cosb ariannol am ddiffyg cydymffurfio gwael a chyson, gan fod hyn yn gofyn am gynnydd mewn gwaith rheoleiddio. Mae CNC wedi datblygu'r cynllun hwn dros y flwyddyn ddiwethaf a chredwn fod y dystiolaeth a ddarperir yn y ddogfen ymgynghori gyfredol yn rhoi digon o gefnogaeth i gyflwyno'r taliadau newydd.

NFU – Dim sylw

Ymateb CNC

Rydym yn defnyddio methodoleg safonol i asesu cydymffurfiad mewn safleoedd a chaiff hyn ei asesu mewn perthynas ag amodau trwydded unigol. Mae asesiad cydymffurfiad yn benodol i safle ac yn seiliedig ar risg yn dibynnu ar ffactorau fel derbynyddion lleol a dyrennir sgoriau'n seiliedig ar effaith y diffyg cydymffurfiad y gellir ei rhagweld yn rhesymol yn hytrach na'r diffyg cydymffurfiad ei hun ac mae hyn yn amrywio o safle i safle, ar wahân i amwynder, lle yr ystyrir yr effaith wirioneddol. Felly gellid rhoi sgôr wahanol i ddiffyg cydymffurfiad tebyg ar ddau safle gwahanol yn unol â'r fethodoleg, yn dibynnu ar ffactorau lleol. Ond ni roddir sgôr oni bai bod diffyg cydymffurfiad gwirioneddol.

Wrth ymdrin â chwynion blinderus am safle, ymdrinnir ag unrhyw doriadau'n gymesur ac ni chânt eu sgorio fwy nag unwaith yn ddiangen. Mae gweithdrefnau ynglŷn â sut i ymdrin ag achosion o'r fath yn ein Gweithdrefnau Methodoleg Digwyddiadau a Chwynion yn y Cynllun Asesu Cydymffurfiaeth.

Trafodir toriadau gyda'r gweithredwr ac mae'n ofynnol bod gan bob safle Reolwr sy'n Dechnegol Gymwys a ddylai fod yn gallu deall ac ymdrin â materion o'r fath.

Caiff y sgoriau cydymffurfiad eu cyfrif ar ddiwedd pob blwyddyn ac mae safle'n syrthio i fand cydymffurfiad penodol yn seiliedig ar ei sgôr gyffredinol. Mae'r taliad y flwyddyn ganlynol yn seiliedig ar y sgôr hon. Mae lefel y gweithgarwch rheoleiddio'n seiliedig ar risg, yn unol â sgoriau cydymffurfiad, a byddai disgwyl i safle sy'n perfformio'n wael fod yn destun mwy o reoleiddio i gynorthwyo'r gweithredwr i gydymffurfio unwaith eto. Yn yr un modd, caiff perfformiad da ei gydnabod gan leihad i safleoedd Band A i gydnabod y lleihad mewn gweithgarwch rheoleiddio. Mae'r lluosyddion yn cael eu diwygio yn awr i gydnabod y cynnydd mewn rheoleiddio sy'n ofynnol ar safleoedd Band D, E ac F.

I esbonio:

- Mae'r diwygiad hwn yn berthnasol i gyfleusterau gweithredu gwastraff yn unig ac nid gosodiadau gwastraff.
- Bydd y lluosydd yn seiliedig ar fand cydymffurfiad y flwyddyn flaenorol.
- Bydd y sgoriau cydymffurfiad ar gyfer safleoedd Band D, E ac F yn cael eu diwygio hanner ffordd trwy'r flwyddyn lle mae perfformiad wedi gwella.
- Bydd ffioedd safleoedd Band A ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar fand cydymffurfiad y flwyddyn flaenorol.

Cwestiwn 5. Beth yw eich barn am y lefel o daliadau a gynigir ar gyfer cofrestru a dynodi risg?

ICE – Maen nhw'n dderbyniol yn ôl pob golwg.

St Pierre – Dim sylw

Innogy – O ystyried bod angen y ffrwd taliadau oherwydd diffyg cyllid a bod y symiau i'w codi yn eglur:

Nid oes rhagamcan o'r swm ar gyfer ffioedd 2018-20 felly rwy'n tybio bod angen ymgynghoriad bob blwyddyn wrth i'r ffioedd gynyddu gyda chwyddiant? Mae'r taliadau hyn ychydig yn is na rhai Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban ond nid ydynt mor isel â rhai Asiantaeth yr Amgylchedd. Beth mae CNC wedi ei wneud i ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd ynglŷn â chofrestru cronfeydd dŵr "newydd" sydd â capasiti o 10,000m³? Nid wyf wedi gweld unrhyw beth y tu hwnt i'm maes gwybodaeth arbenigol fy hun (e-byst uniongyrchol, gwybodaeth i Gymdeithas Argaeau Prydain a Sefydliad y Peirianwyr Sifil).

Anhysbys – Mae lefel y taliadau i'w gweld yn synhwyrol, yn arbennig o ystyried bod cyfnod o gofrestru a dynodi risg am ddim yn cael ei gynig.

RML – Dim sylw

UNIPER – Dim sylw

CLA – Er mwyn lleddfu ergyd y ffioedd newydd, darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru gyfnod cofrestru am ddim, ond nododd yn eglur y byddai ffioedd yn gymwys wedi hyn. Mae hwn yn ddull teg, yn enwedig gan y dylai busnesau fod wedi elwa o'r cyfnod 'am ddim'.

Nid yw'r ffi flynyddol ychwanegol yn arbennig o sylweddol i fusnesau sydd berchen ar seilwaith ac yn rhedeg mentrau masnachol mawr. Fodd bynnag, gan fod y meini prawf capasiti wedi cael eu lleihau a bod yr hen seilwaith yn parhau ac nad yw'r strwythurau yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgarwch masnachol, gallai'r ffi ychwanegol hon fod yn anodd. Mae'r CLA yn sylweddoli efallai mai dyma'r math o strwythurau lle mae'n bosibl y gallai problemau godi gan y gallai fod ganddynt ddefnydd neu gynhaliaeth fasnachol barhaus gyfyngedig a byddant yn troi'n faich.

A oes data ar gael ar sawl strwythur o'r natur hon sydd yng Nghymru ac a yw'r rhai a gofrestrwyd hyd yn hyn yn risg? Os yw nifer y strwythurau darfodedig hyn yn fach ac nad oes unrhyw weithgarwch masnachol yn gysylltiedig â nhw a bod achos o galedi, a ellid hepgor y ffi hon mewn rhai achosion?

DVW – Nid yw'n eglur o'r ddogfen ymgynghori pa un a fydd y ffi flynyddol yn berthnasol i'r cronfeydd dŵr hynny sy'n cael eu cofrestru ar ôl 1 Ebrill 2017 yn unig, felly byddai rhywfaint o eglurhad yn cael ei groesawu yma. Rydym yn sylweddoli bod costau'n gysylltiedig â dyletswyddau rheoleiddio, ond gan fod y rhain yn ffioedd newydd sbon, byddai wedi bod o gymorth cael gweld y cyfiawnhad i lefel y ffioedd a gynigir er mwyn gwneud asesiad priodol.

Ash – Dim sylw


Simon – Mae'n ymddangos ar yr wyneb bod y ffioedd hyn yn synhwyrol, ond pan welir fod 40% o gronfeydd dŵr yn rhai Dŵr Cymru ac eraill yn rhai Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill, mae'n ymddangos bod biwrocratiaeth yn cael ei greu i symud arian cyhoeddus o gwmpas rhwng adrannau ac mai rhai ymgymerwyr preifat yw'r unig gyfranwyr net at bwrs y wlad er mai nhw yw'r lleiaf ac sydd â'r lleiaf o allu i ariannu hyn. Mae'r perchnogion cronfeydd dŵr bach hyn yn darparu budd cyhoeddus sylweddol a gwasanaethau ecosystem nad ydynt yn cael eu cydnabod ar ffurf unrhyw fath o daliad gan Cyfoeth Naturiol Cymru a byddwn yn awgrymu y byddai'n briodol cydnabod y budd amgylcheddol hwn trwy ddiddymu'r ffi hon, a fydd yn syrthio'n anghymesur ar y perchnogion cronfeydd dŵr preifat bach. Bydd y ffi hon yn gymhelliad arall i ddiraddio/cael gwared ar gronfeydd dŵr uwch mawr bach, ac rwy'n siŵr nad dyna fwriad Cyfoeth Naturiol Cymru/LIC.

Balfours - Ni fyddai'r ffi hon yn cael effaith rhy ddifrifol i fusnesau sy'n gweithredu/yn berchen ar gronfa ddŵr yn fasnachol, ond lle nad oes unrhyw fantais fasnachol o gael strwythur o'r fath, sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd gan staff yr ystâd ac yn cael ei arolygu'n flynyddol gan Beiriannydd Arolygu a phob 10 mlynedd gan Beiriannydd Goruchwylio, y ddau am gost flynyddol o tua £500 a thua £1,200 pob 10 mlynedd, mae hon yn faich ychwanegol enfawr ar y perchennog, yn enwedig pan fo'r holl adroddiadau yn cael eu hanfon i Cyfoeth Naturiol Cymru er gwybodaeth.

Bydd dyblu, i bob pwrpas, y costau blynyddol o fod yn berchen ar gronfa ddŵr nad oes unrhyw incwm yn deillio ohoni yn cael effaith enfawr ar y perchnogion ac ni ellir ei gyfiawnhau, yn enwedig os oes ganddynt hanes da o gydymffurfio. Rwy'n credu y dylid rhoi gostyngiadau ar waith yn yr achosion hyn. Pam mae angen y ffi hon? Mae'n ymddangos fel pe bai Cyfoeth Naturiol Cymru yn ceisio codi refeniw trwy unrhyw fodd posibl?

VCAC – Ar 27 Ionawr 2014, roedd y tabl canlynol i'w weld ar y wefan:

<http://watermaps.environment-agency.gov.uk/wiyby/wiyby.aspx?topic=reservoir#x=303977&y=357588&scale=11>

Clywedog.				
Perchennog y Gronfa Ddŵr: Badland				
Lleoliad y gronfa ddŵr (cyfeirnod grid): 301247, 357494	Ardal Asiantaeth yr Amgylchedd: Cyfoeth Naturiol Cymru	Awdurdod Lleol:	Sylwadau Ychwanegol: Dylech gysylltu â'r Awdurdod Lleol a enwir os oes gennych gwestiynau am gynlluniau brys lleol ar gyfer y gronfa ddŵr hon	Gweld y map 

Cyfeiriad presennol ar y we:

https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Html5Viewer/Index.html?configBase=https://maps.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk/Geocortex/Essentials/REST/sites/Flood_Risk/viewers/Flood_Risk/virtualdirecto ry/Resources/Config/Default

Mae'n dangos bod y perygl o lifogydd yn sgil digwyddiad "trychinebus" wedi diflannu i bob pwrpas ym mhentref y Gyffylliog a'r cyffiniau. Felly mae'r data i asesu'r perygl o lifogydd ar gael yn rhwydd. Mae'n ymddangos yn afresymol felly disgwyl i VCAC dalu £510 i ailgofrestru ein cronfa ddŵr. Does bosib y dylai fod yn fater dibwys trosglwyddo'r manylion i gronfa ddata newydd. Mae cyfraddau'r ffioedd a nodir mewn adran ddiweddarach (5.13) o £125/awr y person yn awgrymu y bydd yn cymryd pedair awr i unigolyn gwblhau'r dasg hon.

BHA – Dim sylw

Trant – Mae gen i gronfa ddŵr sydd wedi ei chofrestru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ers blynyddoedd lawer. Roedd y peiriannydd arolygu blaenorol wedi dynodi na ddylai fod angen arolygu'r gronfa ddŵr hon mor aml na mor drylwyr ag ar hyn o bryd, gan ei bod o risg isel iawn gan

iddi gael ei hadeiladu bron i 200 mlynedd yn ôl ac nad yw wedi achosi unrhyw broblemau o gwbl. Nawr rwy'n gweld eich bod yn dymuno codi ffi fonitro flynyddol. Mae hyn yn ychwanegol i'r ffi arolygu lawer mwy y mae'n rhaid i mi ei thalu'n flynyddol i beiriannydd. Mae'n ymddangos ein bod ni'n symud i wahanol gyfeiriadau! Nid yw'r gronfa ddŵr hon yn cynhyrchu UNRHYW incwm. Byddai'n well gen i fod yn rhoi arian tuag at rywbeth defnyddiol fel lliniaru rhag llifogydd. Gallwn adeiladu "argaeau sych" i lawr yr afon a fyddai'n llawer mwy defnyddiol ar adegau o lawiad trwm. Byddwn yn hapus iawn i drafod hyn gyda chi.

BGCBC – Mae'r ffioedd yn ymddangos yn deg a rhesymol am gofrestru a dynodi risg, er bod BGCBC yn bwriadu cofrestru pob cronfa ddŵr ychwanegol ar neu gyn 31 Mawrth 2017 i osgoi'r ffioedd hyn.

CIWM – Dim sylw

CCBC – Dim barn gref gan y dylai cyrff dŵr o'r fath fod wedi eu cofrestru erbyn hyn ac felly dylai fod yn berthnasol i adeiladau newydd ac nid i unrhyw ddiwygiadau a gynigir gennych chi.

Bowen – Ni fyddai unrhyw ffioedd yn gwneud fy llyn (1.4 erw) yn hyfyw. Rwyf wedi darllen y cynigion yn eu cyfanrwydd ac, er fy mod yn sylweddoli'r cyfeiriad teithio o'ch safbwynt chi, bydd unrhyw ffioedd ar gyfer fy ngweithgareddau i yn golygu y bydd y gweithgarwch gyda'r clwb pysgota yn dod i ben. Rwy'n nodi bod llawer o'r cynnwys yn cyfeirio at weithgareddau ffermio – efallai y dylech chi godi ffi ar ffermydd am y dŵr a ddarperir ym mhob cae na thelir amdano. Rwyf wedi crybwyll hyn i'r bwrdd dŵr oherwydd mae'n rhaid bod miliynau o alwyni o ddŵr na chodir tâl amdano.

WESA – Dim sylw

MPA – Dim sylw

DCWW – Rydym yn cydnabod bod paragraff 39 (Ffioedd), Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010, Atodlen 4 (Cronfeydd Dŵr), yn gwneud gwelliannau i Adran 41(1) Deddf yr Amgylchedd 1995. Mae'r gwelliannau hyn yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i adennill costau yr aeth iddynt wrth gyflawni swyddogaethau a roddwyd gan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.

Yn groes i'r dystiolaeth a ddarparwyd ar gyfer newidiadau i gyfleusterau gweithrediadau gwastraff Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ceir diffyg tystiolaeth ategol yn y cynnig ar gyfer cyflwyno ffioedd ar gyfer cydymffurfriad cronfeydd dŵr o'r costau y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd iddynt wrth gyflawni'r swyddogaeth newydd hon.

Fel meincnod, rydym wedi cymharu'r ffioedd a gynigir gan Cyfoeth Naturiol Cymru â'r rhai yn yr Alban, ac ar sail y gymhariaeth honno, mae'r ffioedd arfaethedig yn ymddangos yn rhesymol.

O gofio fod y rhain yn ffioedd newydd, byddem yn disgwyl gweld Cyfoeth Naturiol Cymru yn casglu gwybodaeth am gostau dros y flwyddyn nesaf ac yn adolygu lefelau'r ffioedd ar gyfer risg a chydymffurfriad cronfeydd dŵr yn 2018/19.

Rheoleiddio cronfeydd dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru yw'r awdurdod gorfodi ar gyfer yr holl gronfeydd dŵr uwch mawr o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys nifer sylweddol lle mai'r ymgwymerwr yw Cyfoeth Naturiol Cymru ei hun. Byddem yn disgwyl i gostau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch rheoleiddio a gorfodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar eu cronfeydd dŵr eu hunain gael eu talu gan Cyfoeth Naturiol Cymru heb groes-gymhorthdal gan ymgwymerwyr cronfeydd dŵr eraill ledled Cymru.

Adolygiadau o ddynodiadau risg

Rydym yn nodi, yn wahanol i'r Alban, nad oes unrhyw fwriad ar hyn o bryd i godi ffi i adolygu dynodiad risg. Rydym yn tybio felly y bydd y costau hyn yn cael eu hymgorffori yn y Ffi Monitro Cydymffurfriad Flynyddol y bydd yr holl ymgwymerwyr cronfeydd dŵr yn ei thalu. Rydym o'r farn fod hyn yn rhesymol ar hyn o bryd, ond byddem yn disgwyl i hyn gael ei adolygu'n gyfnodol wrth i ragor o dystiolaeth gael ei chasglu dros amser am nifer a chost adolygiadau ledled Cymru.

Cofrestru ac amseriad ffioedd

Rydym yn nodi'r datganiadau canlynol yn ymwneud ag amseriad cyflwyno ffioedd:

"Mae dyletswydd gyfreithiol ar ymgwymerwyr cronfeydd dŵr i gofrestru eu cronfa ddŵr a bydd y cynigion hyn ond yn dod i rym i'r ymgwymerwyr cronfeydd dŵr hynny sy'n cofrestru gyda ni ar 1 Ebrill

2017 neu ar ôl hynny. Byddwn yn gweithio i gyfathrebu'r dyddiad y daw'r newidiadau arfaethedig hyn i rym, gan annog ymgymeryddwyr i fanteisio ar gyfnod cofrestru a dynodi am ddim a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2017."

Rydym yn tybio o hyn:

- Na fydd yr holl gronfeydd dŵr sy'n fwy na 25,000m³ sydd eisoes wedi eu cofrestru cyn Ebrill 2016 yn ddarostyngedig i unrhyw ffi gofrestru a dynodi risg.
- Na fydd cronfeydd dŵr a gofrestrwyd ar ôl Ebrill 2016 a chyn 31 Mawrth 2017 yn ddarostyngedig i ffi gofrestru a dynodi risg hyd yn oed os bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal dynodiad risg ar ôl 31 Mawrth 2017.
- Y bydd y Ffi Monitro Cydymffuriad Flynyddol yn daladwy dim ond ar ôl dynodiad neu gadarnhad terfynol nad yw'r gronfa ddŵr yn risg uchel. Ni fydd yn daladwy ar y cam dynodi rhagarweiniol.
- Os bydd y dynodiad neu hysbysiad terfynol nad yw cronfa ddŵr yn risg uchel yn digwydd rhan o'r ffordd drwy'r flwyddyn ariannol, yna dim ond swm cymesur o'r Ffi Fonitro Flynyddol fydd yn daladwy.

Byddem yn croesawu cadarnhad o'r tybiaethau hyn yn y cynllun ffioedd terfynol.

Byddem yn croesawu mwy o eglurder ynghylch pa wybodaeth ofynnol a ddarperir i Cyfoeth Naturiol Cymru fydd yn bodloni 'cofrestrriad' erbyn 31 Mawrth 2017 ac eithriad dilynol o unrhyw ffioedd cofrestru a dynodi risg. Byddem hefyd yn gwerthfawrogi pe gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu cydnabyddiaeth o gofrestrriad boddhaol fel bod ymgymeryddwyr yn eglur na fydd unrhyw Ffi Gofrestru a Dynodi Risg yn daladwy.

NFU – Rydym yn nodi cynigion i gyflwyno system haenog o ffioedd ar gyfer cofrestru a monitro cydymffuriad ar gyfer Cronfeydd Dŵr yn seiliedig ar gofrestrriad a dynodiadau risg o £510 a monitro cydymffuriad blynyddol o £230 ar gyfer risg uchel a £150 ar gyfer cronfeydd dŵr uwch mawr na ystyrir eu bod yn risg uchel.

Byddem yn amlygu mai prin yw'r wybodaeth a ddarperir drwy'r cynigion i gyfiawnhau'r costau nac am ba fesurau effeithlonwydd y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu hystyried i leihau'r baich o ran costau ar ei gwsmeriaid.

Rydym yn mynegi pryderon bod effaith y cynigion yn syrthio'n anghymesur ar fusnesau bach sydd â'r lleiaf o allu i dalu am hyn. Mae ein haelodau wedi pwysleisio trwy gydol y broses ymgynghori hon bod rhaid iddynt dalu costau arolygiad blynyddol gan beiriannydd cymwysedig eisoes, ac nid yw'r costau hyn yn fân. Byddai NFU Cymru yn amlygu bod perchnogion cronfeydd dŵr bach yn darparu gwasanaethau ecosystem a manteision cyhoeddus sylweddol nad ydynt yn cael eu cydnabod ar ffurf unrhyw fath o daliad gan Cyfoeth Naturiol Cymru nac unrhyw un arall. Rydym o'r farn y gallai gweithrediad y drefn ffioedd hon gael goblygiadau na fwriadwyd gan gynnwys gwaredu cronfeydd dŵr uwch mawr bach.

Rydym hefyd yn nodi na fydd cofrestrriad a dynodiad risg yn berthnasol i'r cronfeydd dŵr hynny sy'n cael eu cofrestru cyn 1 Ebrill 2017 a bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig cyfathrebu'r fantais o gofrestru am ddim cyn y dyddiad hwn.

Byddai NFU Cymru yn amlygu nad yw'n rhwydd dod o hyd i'r wybodaeth hon ar eich gwefan ar hyn o bryd – hyd yn oed pe bai ffermwyr yn ymwybodol o'r cynigion ac yn gwneud ymdrechion i chwilio amdanynt – nid oes unrhyw gyfeiriad atynt ar y tudalennau amaethyddol. Rydym yn nodi bod y cyfathrebiad diweddaraf ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn dyddio yn ôl i fis Mawrth 2016. Nid ydych wedi nodi o'r ymgynghoriad a oes llwybr cyfathrebu uniongyrchol (rhestr bostio). Os nad oes un ar gael, bydd angen cyfathrebiad wedi'i dargedu mwy ar gyfer y diwydiant amaethyddol cyn gynted â phosibl.

Ymateb CNC

Hyd yma, mae ein holl weithgareddau rheoleiddio cronfeydd dŵr wedi cael eu hariannu gan bwrs y wlad trwy ein Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn mynd i gostau wrth fonitro ac adolygu'r holl gronfeydd dŵr uwch mawr ac ymchwilio cronfeydd dŵr anhysbys, pa un a ydynt yn risg uchel, yn ddarfodedig, yn risg is, yn gronfeydd dŵr amddifad a/neu yn rhai lle nad oes unrhyw weithgarwch masnachol. Mae'r cynllun ffioedd newydd yn trosglwyddo'r costau hyn i'r ymgymeryddwyr

cronfeydd dŵr sy'n gyfrifol am gadw eu hargaeau mewn cyflwr diogel, yn hytrach na gwneud i'r cyhoedd yn ehangach dalu trwy drethi cyffredinol.

Mae 16% o ymgymerwyr yn unigolion neu bartneriaethau preifat, ac mae'r gweddill yn gyrrff cyhoeddus neu'n sefydliadau masnachol. Mae cyfran gynyddol o gronfeydd dŵr mewn perchnogaeth breifat a byddwn yn monitro hyn er mwyn sicrhau nad yw'r effaith yn syrthio'n anghymesur ar fusnesau bach. Bydd y cyfnod cofrestru am ddim, a chael gwared ar ffioedd ar gyfer cronfeydd dŵr risg is, yn golygu y bydd ffi yn cael ei chodi am gofrestru (ar ôl 1 Hydref 2017) a monitro cydymffurfriad ar ymgymerwyr cronfeydd dŵr risg uchel yn unig, lle ceir perygl i fywyd.

Ers i'r newidiadau yn Neddf Cronfeydd Data 1975 ddod i rym ar 1 Ebrill 2016, rydym wedi mynd ati i nodi cyrff dŵr y mae'n bosibl y byddai angen iddynt gofrestru o dan y gyfraith newydd. Mae'r gweithgarwch wedi canolbwyntio ar hysbysu ymgymerwyr cronfeydd dŵr presennol, cysylltu ag ymgymerwyr cronfeydd dŵr â chapasiti hysbys o 10,000 metr ciwbig, neu sydd wedi cael eu gostwng islaw'r trothwy cofrestru blaenorol o 25,000 metr ciwbig. Rydym hefyd wedi gweithredu ar sail gwybodaeth o archifau awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Er mwyn caniatáu amser digonol i ni gyfathrebu manylion y cynllun ffioedd i ymgymerwyr cronfeydd dŵr ac i ganiatáu mynediad rhesymol iddynt at ein canllawiau, byddwn yn cynnwys cyfnod cofrestru am ddim o chwe mis, sy'n golygu y bydd y drefn o orfodi ffi gofrestru yn dod i rym ar 1 Hydref 2017.

I fod yn eglur:

- Ni fydd cronfeydd dŵr uwch mawr â chapasiti o 25,000m³ sydd eisoes wedi eu cofrestru â ni cyn Ebrill 2016 yn ddarostyngedig i unrhyw Ffi Gofrestru a Dynodi Risg.
- Ni fydd cronfeydd dŵr â chapasiti o 10,000m³ neu fwy, sydd wedi eu cofrestru o'r newydd ers mis Ebrill 2016 a chyn 1 Hydref 2017, yn ddarostyngedig i Ffi Gofrestru a Dynodi Risg hyd yn oed os bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni dynodiad risg ar ôl 1 Hydref 2017.
- Bydd cronfeydd dŵr â chapasiti o 10,000m³ neu fwy sy'n cofrestru o 1 Hydref 2017 yn ddarostyngedig i'r Ffi Gofrestru a Dynodi Risg, fel y dangosir yn Nhabl 1 isod:

Ffi gofrestru gychwynnol	
Cofrestru a Dynodiad Risg Cychwynnol	£510

Rydym wedi diwygio'r cynnig yr ymgynghorwyd arno gan wneud dau newid:

- estyniad o chwe mis i'r cyfnod cofrestru am ddim
- diddymu ffi gynhaliath flynyddol ar gyfer cronfeydd dŵr risg is (gweler C.6)

Nid yw costau gweithgareddau gorfodi wedi eu cynnwys yn y ffioedd, fel nad yw ymgymerwyr sy'n cydymffurfio â'r gyfraith yn cymorthdal arfer gwael pobl eraill.

Cwestiwn 6. Beth yw eich barn am dâl haenog, seiliedig ar risg ar gyfer monitro cydymffurfriad blynyddol a lefel y taliadau hyn?

ICE – Mae hyn yn ymddangos yn dderbyniol.

St Pierre – Dim sylw

Innogy – Rhesymol

Anhysbys – Gan fod y mwyafrif llethol o gronfeydd dŵr wedi eu dynodi'n risg uchel yn rhagarweiniol, efallai y bydd gofyn addasu rhywfaint ar y cynllun ffioedd er mwyn osgoi'r consensws bod dynodi risg wedi bod yn rhy geidwadol er mwyn codi'r uchafswm posibl o reffeniw.

RML – Dim sylw

UNIPER – Dim sylw

CLA – Dylid croesawu'r cynnig sail haenog i gydnabod lefel bosibl y risg dan sylw a lefel y gwaith sy'n gysylltiedig â'i risg dybiedig.

DVW – Rydym yn teimlo bod ffi haenog, seiliedig ar risg ar gyfer monitro cydymffurfiad blynyddol yn deg ac yn cyd-fynd â dull rheoleiddio seiliedig ar risg Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, fel y nodwyd o dan Gwestiwn 5, byddai wedi bod o gymorth gweld y cyfiawnhad i lefel y ffioedd i ganiatáu asesiad cywir o ba mor briodol ydynt.

Ash – Dim sylw

Simon – Gweler Cw. 5

Balfours – Dylid croesawu unrhyw beth sy'n cadw costau mor isel â phosibl.

VCAC – Unwaith eto, mae'r ffi o £230 ar gyfer cronfa ddŵr risg uchel a £150 ar gyfer cronfa ddŵr na ystyrir ei bod yn risg uchel yn ymddangos yn ormodol, heb esboniad manwl o'r gwaith sy'n ofynnol i fonitro ased sefydlog nad yw'n newid yn sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

Yr argraff gyffredinol yw nad yw'r ffioedd o dan y pennawd Cydymffurfiad Cronfeydd Dŵr yn adlewyrchu'r gost wirioneddol o'r hyn a fyddai'n ymarfer dibwys i gronfa ddŵr fach fel cronfa ddŵr Clywedog y mae VCAC yn berchen arni.

Hoffwn ychwanegu hefyd y bydd gorfodi'r costau hyn yn rhoi straen sylweddol ar adnoddau clwb genweirio bach fel ein un ni. Mae cost dau adroddiad peiriannydd y flwyddyn o ran yr argae ar gyfer y gronfa ddŵr eisoes yn ddraen sylweddol ar gyllid y clwb ac, yn ein barn ni, ni ellir cyfiawnhau'r ffioedd ychwanegol hyn.

BHA – Dim sylw

Trant – Dim sylw

BGCBC – Mae'r dull haenog yn ymddangos yn deg. A fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu adroddiad blynyddol ar gyfer pob cronfa ddŵr pa un a yw'n risg uchel neu nad yw'n risg uchel? Un effaith y gallai hyn ei chael yw ymgymerydd yn penderfynu cau cronfeydd dŵr i osgoi ffioedd o'r fath, a allai gael effaith andwyol ar yr ardal leol wedyn.

CIWM – Dim sylw

CCBC – Mae hyn yn peri mwy o bryder. Ceir baich sylweddol eisoes o ran costau cydymffurfio â deddfwriaeth o ran monitro a rheoli cyrff dŵr o'r fath. Fel y gellid disgwyl, mae cynnal safleoedd o'r fath yn flaenoriaeth uchel ac yn gofyn am fwy o adnoddau na safleoedd eraill lle nad oes dŵr yn bresennol, neu ar lefelau sy'n is na'r trothwy. Yn ychwanegol i hyn y mae'r costau sy'n gysylltiedig ag arolygiadau blynyddol a deng mlynedd statudol, sy'n gofyn am beirianwyr arbenigol. Ceir y mater nawr hefyd o godi am drwydded ollwng, sy'n rhan statudol o'r arolygiad. I grynhoi, bu cynnydd sylweddol o ran costau ac amser. Cwestiynir a ddylai fod ffi am gyflawni dyletswydd statudol, yn enwedig rhwng un sefydliad sector cyhoeddus ac un arall. Dylai fod cysondeb hefyd rhwng cyrff cyhoeddus o ran ffioedd, e.e. eithriadau ar gyfer gollyngiadau dŵr.

Ynghyd â'r uchod, ond yn fwy arwyddocaol, y mae amcanion yr hyn y mae ein sefydliadau yn ceisio ei gyflawni, yn enwedig o ran rheoli dŵr. Mae gan ein dau sefydliad gadw dŵr, yn enwedig ar yr ucheldir, fel amcan, ac, yn wir, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a LIC yn ariannu mentrau o'r fath. Mae gennym nifer o gronfeydd dŵr fel cyngor, yr ydym yn berchen arnynt ac yn eu lesu, nad oes ganddynt unrhyw werth masnachol ond sy'n cyflawni swyddogaeth bwysig o ran cadw dŵr gan helpu i fodloni amcanion cynaliadwyedd y mae cadw dŵr yn rhan allweddol ohonynt. Gallai ychwanegu costau ychwanegol fod yn hollol wrthgynhyrchiol pe bai pobl yn dod i'r casgliad y gellir lleihau costau trwy datgomisiynu'r cronfeydd dŵr hyn. Yn wir, cymerwyd cyfrifoldeb am rai cronfeydd dŵr er mwyn atal British Steel rhag eu datgomisiynu. Pe baent yn cael eu dychwelyd, fel y mae gennym berffaith hawl i'w wneud, yna rwy'n credu y byddent yn cael eu datgomisiynu ar unwaith. Dylid ystyried y materion hyn ac, yn wir, rhoi eithriadau, o leiaf, ar gyfer dyfroedd nad ydynt yn fasnachol a/neu ddyfroedd o dan reolaeth gyhoeddus.

O ran categoreiddio risg, byddwn wedi meddwl y byddai ffi sefydlog yn fwy priodol gan nad 'bai' perchennog y gronfa ddŵr yw'r hyn sydd o amgylch y safle. Gallai gweithredoedd pobl eraill yn y dyfodol, e.e. rhoi caniatâd cynllunio, arwain at oblygiadau ariannol i gymydog.

Hefyd, mae priodoldeb codi'r ffi yn rhannol i gefnogi safleoedd Dŵr Cymru yn y gogledd wedi cael ei gwestiynu mewn egwyddor ac yn ymarferol.

Bowen – Byddaf yn cau fy musnes os oes unrhyw ffioedd.

WESA – Dim sylw

MPA – Dim sylw

DCWW – Rydym o'r farn bod dull haenog sy'n seiliedig ar risg yn briodol gan y byddem yn disgwyl i hyn adlewyrchu'r ymdrech reoleiddio fwy, a fyddai'n ofynnol ar gronfeydd dŵr risg uchel o'u cymharu â'r rhai nad ydynt yn risg uchel.

Gellir rhoi ystyriaeth i hepgor y ffi ar gyfer cronfeydd dŵr nad ydynt yn risg uchel. Fodd bynnag, mae'r cronfeydd dŵr hyn yn dal i fod yn destun rheoliadau i raddau. Os na chaiff ffioedd eu codi, yna byddai ymgwymerwyr y cronfeydd dŵr risg uchel yn talu'r gost hon ac yn croes-gymorthdalu ymgwymerwyr cronfeydd dŵr nad ydynt yn risg uchel i bob pwrpas.

Mae codi ffi ar ymgwymerwyr cronfeydd dŵr nad ydynt yn risg uchel hefyd yn atgoffa ymgwymerwyr bod eu cronfeydd dŵr yn dal i fod yn destun rheoliadau i raddau (er bod hynny i raddau llai). Pe na bai unrhyw ffi, byddai hyn yn helpu i barhau cred ymhlith rhai nad yw cronfeydd nad ydynt yn risg uchel yn ddarostyngedig i'r rheoliad. Felly byddem yn cefnogi codi ffi gymesur a seiliedig ar dystiolaeth ar ymgwymerwyr cronfeydd dŵr nad ydynt yn risg uchel.

NFU – Gweler Cw. 5

Ymateb CNC

Nid yw'r cynllun ffioedd yn dosbarthu costau i lefel y gweithgarwch a briodolir i gronfeydd dŵr neu ymgwymerwyr penodol; yn hytrach, mae'r ffioedd yn gyfran o gyfanswm cost gwasanaeth rheoleiddio cronfeydd dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei rhannu ar draws yr ymgwymerwyr ar gyfer cronfeydd dŵr uwch mawr. Nid yw'n cynnwys unrhyw ystyriaeth o berfformiad unigol yn erbyn cydymffurfriad.

Rhestrir y gweithgareddau yr ydym yn codi ffi amdanynt isod:

- Llundio a chynnal cyngor a chanllawiau ategol cyffredinol
- Darparu cyngor penodol i safle (o'r swyddfa) i ymgwymerwyr
- Cyfarfodydd safle i ddarparu cyngor penodol i ymgwymerwyr
- Darparu cyngor penodol yn ymwneud â therfynu a gadael
- Darparu negeseuon i atgoffa ymgwymerwyr am derfynau amser statudol sydd ar fin dod
- Derbyn, adolygu a chofnodi'r holl adroddiadau, tystysgrifau, apwyntiadau a gohebiaeth arall ar gyfer gweithgareddau o dan Adran 6, 7, 10, 11, 12 y Ddeddf Cronfeydd Dŵr

Mae ein costau adferadwy yn gyfreithiol ar gyfer y gweithgareddau hyn yn dod i gyfanswm o £55,000, a ddarperir gan y Grant Cymorth ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys costau gweithgareddau newydd y mae'n rhaid i ni eu cyflawni yn unol â'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr ddiwygiedig, er enghraifft cofrestru cronfeydd dŵr sydd newydd ddechrau gael eu rheoleiddio a dynodi risg. Rydym hefyd yn cyflawni nifer o weithgareddau **nad** yw eu costau yn cael eu hadennill drwy'r cynllun ffioedd, sef:

- Gweithgareddau gorfodi
- Rheoli ac adrodd ar berfformiad
- Ymateb i ymgynghoriadau, a cheisiadau am wybodaeth
- Rheoli digwyddiadau
- Cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefel y DU a rhyngwladol

Roedd ein cyfrifiad o'n costau adferadwy yn eithrio'r gost o reoli a gweithredu ein cronfeydd dŵr ein hunain, a'r gost o'u rheoleiddio.

<£3,000 yw'r incwm blynyddol rhagweledig o ffi a orfodir ar gronfeydd dŵr risg is. Mae ein cynnig diwygiedig yn diddymu'r ffi monitro cydymffurfriad flynyddol ar gyfer cronfeydd dŵr nad ydynt wedi eu dynodi'n risg uchel. Ni fydd ymgwymerwyr cronfeydd dŵr risg uchel yn cymryd cyfrifoldeb am y gost o

reoleiddio'r cronfeydd dŵr risg is hyn a byddwn yn ceisio ariannu'r gyfran fach hon o weithgarwch o Gymorth Grant. Mae'r ffi monitro cydymffuriad flynyddol yn cael ei diwygio fel a ganlyn:

Ffi Monitro Cydymffuriad Flynyddol	
Cronfa Ddŵr Risg Uchel	£230
Cronfa Ddŵr Uwch Fawr (nad yw'n Risg Uchel)	£0

Mae sawl ymateb yn gwneud awgrymiadau ar gyfer ffioedd gostyngedig, neu'r ddarpariaeth o eithriadau, ar gyfer cronfeydd dŵr nad ydynt yn fasnachol sy'n darparu manteision amgylcheddol ehangach, fel arafu dŵr llifogydd. Mae hyn yn rhywbeth yr hoffem ei werthuso'n well a'i ystyried yn y dyfodol.

Mae ffioedd blynyddol wedi eu cysylltu'n uniongyrchol â'r dynodiad risg ar gyfer y gronfa ddŵr. Bydd y ffi yn daladwy o'r dyddiad y mae Hysbysiad o Ddynodiad Terfynol a ddarperir i'r ymgymerwyr yn cael ei roi ar waith, yn amodol ar unrhyw apêl ffurfiol y gallent ei gwneud.

Sefydlwyd ein proses dynodi risg yn dilyn ymgynghoriad ar draws Cymru a Lloegr a gynhaliwyd cyn sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyn i unrhyw awdurdod gael ei roi i ailgodi ein costau priodol. Mae ein proses dynodi risg yn defnyddio egwyddor rhagofalus lle mae diffyg tystiolaeth neu amheuaeth ynghylch eglurder y dystiolaeth yn ein cymell i ddynodi cronfa ddŵr fel un risg uchel os byddwn yn meddwl y gallai bywyd dynol gael ei beryglu mewn achos o ollyngiad dŵr heb ei reoli. Gallai'r egwyddor hon gael yr effaith o ymddangos yn rhy geidwadol, ond rydym yn rheoleiddiwr seiliedig ar dystiolaeth a gallai cyflwyno tystiolaeth ychwanegol gan ymgymerwyr leihau cyfran y cronfeydd dŵr risg uchel.

Nid ydym wedi cynnwys ffi am gyflwyno cais i adolygu dynodiad risg cronfa ddŵr. Nid ydym yn credu y bydd hyn yn angenrheidiol yn ystod blwyddyn gyntaf y ffioedd pan fydd dynodiadau'n cael eu hysbysu o'r newydd. Byddwn yn monitro arwyddocâd adolygiadau dynodiad ac yn ystyried codi ffi am hyn yn y dyfodol.

Cwestiwn 7. Beth yw eich barn am yr ymagwedd sy'n gofyn i ymgymerwyr lluosog ddosrannu costau rhyngddynt?

ICE – Mae hyn yn ymddangos yn dderbyniol.

St Pierre – Dim sylw

Innogy – Ni fyddai talu rhannau o anfonebau yn dderbyniol o dan weithdrefnau ein cwmni; mae'n rhaid i'r anfoneb gyfateb i swm y taliad.

Anhysbys – Cytuno, ond gellid cael achosion o oedi cyn talu.

RML – Dim sylw

UNIPER – Dim sylw

CLA – Dylid croesawu'r dull hwn i gadw costau'n isel.

DVW – Rydym yn deall y rhesymeg am ddilyn y dull hwn; fodd bynnag, heb ryw fath o ganllawiau gan y rheoleiddiwr, ceir perygl o anghydfod rhwng ymgymerwyr – a fwriedir y byddai unrhyw achosion o anghydfod yn cael eu hatgyfeirio at y rheoleiddiwr economaidd perthnasol neu a fyddai gan Cyfoeth Naturiol Cymru swyddogaeth o ran datrys unrhyw anghydfod? A yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyderus bod y manylion ganddynt ar gyfer pob perchnogaeth partïon lluosog, i sicrhau bod yr holl bartïon perthnasol yn derbyn anfonebau?

Ash – Dim sylw

Simon – Derbyniol

Balfours – Gweler Cw. 6

VCAC – Dim sylw

BHA – Dim sylw

Trant – Dim sylw

BGCBC – Mae'n ymddangos bod dosbarthu costau ar draws partïon lluosog yn deg a rhesymol mewn theori, er y gallai fod yn anodd yn ymarferol trefnu i'r holl bartïon gytuno ar gyfran y gost sy'n cael ei dosbarthu iddyn nhw. Byddai angen nodi unigolyn/awdurdod i gydgyssylltu hyn er mwyn sicrhau bod y gost yn cael ei rhannu'n deg.

CIWM – Dim sylw

CCBC – Er nad oes gennym unrhyw safbwyntiau cryf ar yr uchod, mae'n ymddangos yn weddol anodd ei orfodi, ond rydym yn cefnogi'r ethos. Ni ddylai fod yn ddrytach ei weithredu na'r refereniw sy'n cael ei gynhyrchu.

Bowen – Rwy'n deall eich safbwynt ond ni fyddwn yn hoffi talu unrhyw gostau eraill.

WESA – Dim sylw

MPA – Dim sylw

DCWW – Rydym o'r farn bod hyn yn briodol. Pan fo ymgwymerwyr lluosog, eu cyfrifoldeb nhw yw cytuno ar ddsbarthu costau, nid Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r egwyddor hon wedi ei hen sefydlu o ran dosbarthu costau peirianwyr sifil cymwysedig a'r costau i wneud unrhyw waith cyfalaf neu gynnal a chadw ar y safle.

NFU – Gweler Cw. 5

Ymateb CNC

Pan fo ymgwymerwyr lluosog â chyfrifoldebau o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, byddwn yn codi un ffi ar y gronfa ddŵr. Bydd rhaid i'r partïon lluosog ddsbarthu costau rhyngddynt eu hunain ac ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorchymyn nac yn argymhell y dosbarthiad hwn. Gallai hyn fod yr un fath ag unrhyw gytundebau sydd ar waith ar gyfer rhannu costau peirianwyr.

Cododd yr ymgynghoriad bryder na fydd rhai ymgwymerwyr, cwmnïau cyfyngedig yn gyffredin, yn gallu talu anfonebau'n rhannol. Rydym o'r farn bod hwn yn ddirgwyddiad prin, ond, mewn achos o'r fath, byddwn yn cyfarwyddo'r ymgwymerwyr i gyflwyno cytundeb wedi'i lofnodi yn dangos y dosbarthiad i'w wneud i bob ymgwymerwr.

Mae'n un o ofynion Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 bod ymgwymerwyr yn sicrhau bod eu cronfa ddŵr wedi ei chofrestru'n gywir ac mae hyn yn cynnwys darparu enw a chyfeiriad yr ymgwymerwr. Mae o fudd i'r ymgwymerwyr eu hunain sicrhau bod yr holl ymgwymerwyr wedi eu cofrestru'n gywir.

Cwestiwn 8. Beth yw eich barn ar y trefniadau ar gyfer gwasanaethau cynghori cyn-ymgeisio ac a ydych yn credu eu bod yn fanteisiol i'r ymgeisydd, gan arwain at geisiadau o ansawdd gwell?

ICE – Mae hon yn ymddangos yn ffordd dderbyniol ymlaen ac yn fanteisiol i bob parti gan gynnwys yr ymgeiswyr.

St Pierre – Dim sylw

Innogy – Nid wyf yn siŵr a fydd y gwasanaeth cynghori yn "fanteisiol i'r ymgeisydd, gan arwain at geisiadau o ansawdd gwell".

Bydd angen disgyblaeth gan Cyfoeth Naturiol Cymru i sicrhau bod ffioedd yn cael eu cadw i lefel resymol. Ni fydd codi £125 yr awr am hanner diwrnod o waith i gael ateb anymrwymol fel "nid oes gennym unrhyw farn" neu "mae'n dibynnu ar feini prawf amhenodedig eraill" yn helpu ac yn arwain at geisiadau heb unrhyw ymgynghori (gan na fydd yn ychwanegu gwerth ond yn costio llawer).

Anhysbys – Cytuno

RML – Dim sylw

UNIPER – Er ein bod yn sylweddoli y gallai'r trafodaethau cyn-ymgeisio hyn fynd y tu hwnt i rai meysydd allweddol ar adegau, rydym yn teimlo eu bod yn bwysig i'r ddau barti wrth drafod trwyddedau newydd neu amrywiadau i drwyddedau. Gall datblygiadau newydd fod yn gymhleth yn aml ac mae gymaint o fudd i'r rheoleiddiwr ag y mae i'r sawl sy'n cael ei reoleiddio cael dealltwriaeth eglur o'r wybodaeth sydd ei hangen mewn cais. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y bydd yr asesiad o'r cais yn mynd rhagddo yn fwy didrafferth gan arwain at lai o oedi i'r rheoleiddiwr a'r parti sy'n gwneud cais am y drwydded newydd neu'r amrywiad. Byddem yn dymuno gweld Cyfoeth Naturiol Cymru yn mabwysiadu dull pragmatig o ymdrin â'r ffioedd hyn a sicrhau nad ydynt yn dod yn rhwystr i drafod trwyddedau ac amrywiadau i drwyddedau.

Dylai fod adolygiad aml o'r ffioedd hyn o gofio eu bod yn gysylltiedig â'r cyhoeddiad o ganllawiau. Mae canllawiau yn gyfyngedig ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru a bu ymgyrch weithredol o fewn Llywodraeth y DU i leihau faint o ganllawiau sydd ar gael trwy wefan .GOV.UK. Mae llawer o ganllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd sydd ar gael wedi eu lleihau a chysylltu ag Asiantaeth yr Amgylchedd yw llawer o'r cyngor. Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru sicrhau bod y canllawiau ar gael yn eang ac yn addas i sicrhau y gall gweithredwyr eu defnyddio. Byddai'n annheg gorfodi ffioedd pe na bai canllawiau ar gael neu eu bod o natur dechnegol mor gyfyngedig mai cysylltu â Cyfoeth Naturiol Cymru oedd unig ddewis ymgeisydd. Gallai darparu swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru penodol fod o fudd mewn rhai achosion, fodd bynnag. Mae gennym brofiad o hyn gydag awdurdodau lleol ac mae angen canfod disgwyliadau'r ddwy ochr yn gynnar yn y broses hon.

CLA - Mae unrhyw gymorth i gefnogi ymgeisydd i'w groesawu. Mae'n rhaid i'r cyngor fod i safon uchel a chael ei roi gan gynghorydd cymwys a fydd yno trwy gydol y broses. Yn anffodus, bu achosion yn y broses gynllunio pan roddwyd cyngor cyn-ymgeisio a wrth-drowyd wedi hynny, gyda'r esgus bod y cyngor cyn-cynllunio wedi cael ei roi gan aelod iau o'r tîm. Os yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd i gynnig gwasanaeth cynghori cyn-ymgeisio, mae'n rhaid cael proses ar gyfer dwyn Cyfoeth Naturiol Cymru i gyfrif am y cyngor hwnnw o dan delerau arferol cyfraith contractau.

DVW – Dim sylw

Ash – Dim sylw

Simon – Dim sylw

Balfours – Dim sylw

VCAC – Dim sylw

BHA – Y farn gyffredin yw os yw'n cael ei gynnig gan Cyfoeth Naturiol Cymru y dylai ffioedd fod yn gymwys ar gyfer y gwasanaethau cyn-ymgeisio ar gyfer ynni dŵr, ni fyddai'r gwasanaeth cyn-ymgeisio yn fanteisiol o gwbl i'r ymgeisydd. Nid yw BHA yn siŵr a fwriedir i'r adran hon ['5 Taliadau Dewisol'] fod yn gymwys i weithredwyr ynni dŵr, ond byddwn yn parhau fel pe bai er mwyn bod yn drylwyr. Fodd bynnag, byddai ei gymhwyso i ynni dŵr yn mynd yn groes i adran 6.3 yr ymgynghoriad, sy'n ymdrin yn unig ac yn benodol ag ynni dŵr ac yn nodi na fydd ffioedd ynni dŵr yn newid ar hyn o bryd, yn rhannol oherwydd:

1. "Gostyngiad yn nifer y trwyddedau ynni dŵr."
2. "Ein hadolygiad parhaus o brosesau trwyddedu ynni dŵr a threfniadau eraill."
3. "Angen am ganllawiau eglur ar gyfraddau codi tâl."

Mae BHA o'r farn y bydd y cyfeiriad at "ein hadolygiad parhaus o brosesau trwyddedu ynni dŵr a threfniadau eraill" yn ymwneud yn rhannol ag ymarfer cyfochrog sy'n cael ei arwain gan Lywodraeth Cymru trwy Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Dŵr Gweinidogol [sy'n cynnwys cynrychiolwyr Cymdeithas Ynni Dŵr Prydain a Cyfoeth Naturiol Cymru], ac sydd wedi llunio adroddiad ers hynny ar gyfer Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig sy'n nodi pecyn o fesurau penodol i gefnogi'r diwydiant ynni dŵr yng Nghymru. Yr amcan a roddwyd i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Dŵr yw llunio argymhellion a fydd yn galluogi'r diwydiant i barhau i ddarparu swyddi, gweithgarwch economaidd, a chyfrannu at gynhyrchu ynni carbon isel. O gofio'r uchod, mae'n amlwg bod unrhyw awgrym o gyflwyno trefn ffioedd am gyngor cyn-ymgeisio i gynllunio ynni dŵr yn groes i ddiben y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ynni Dŵr ac adran 6.3 yr ymgynghoriad hwn.

Mae cyflwyno trefn ffioedd am gyngor cyn-ymgeisio i gynlluniau ynni dŵr, yn enwedig fel y'i nodir yn yr ymgynghoriad hwn, yn amhriodol am y rhesymau canlynol:

1. Nid yw'r system cyn-ymgeisio ar gyfer ynni dŵr yn broses cyn-ymgeisio wirioneddol. Yn hytrach, mae'n dod â'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu a'r ystyriaethau a oedd yn rhan o'r broses ymgeisio ffurfiol gynt allan o'r amserlen ymgeisio ffurfiol er budd Cyfoeth Naturiol Cymru. Fel y cyfryw, tybir bod y ffioedd ymgeisio uchel iawn a gyflwynwyd yn ddiweddar gan Cyfoeth Naturiol Cymru i dalu am yr amser a gymerir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried ceisiadau ynni dŵr ar y cam 'cyn-ymgeisio' ac felly nid oes angen unrhyw 'adennill costau' pellach o ran ceisiadau ynni dŵr.

2. Fel y nodir o dan adran 6.3, mae cyfradd y prosiectau ynni dŵr newydd sy'n dod yn eu blaenau i'r cam ymgeisio wedi lleihau'n sylweddol. Mae'r gostyngiad hwnnw'n debygol o barhau yn y dyfodol rhagweladwy oherwydd diffyg dull ariannu priodol.

Mae'n anodd dros ben erbyn hyn cynhyrchu prosiect ynni dŵr newydd sy'n economaidd hyfyw yng Nghymru, gan na all y sector fynd i unrhyw gostau pellach a pharhau i ddatblygu cynlluniau newydd.

3. Mae'r cam cyn-ymgeisio yn fwy manteisiol i Cyfoeth Naturiol Cymru o ran cymryd gweithdrefnau penderfynu arferol allan o'r ffenestr amser statudol ac i ffwrdd o'r posibilrwydd o apel yn hytrach nag y mae i ymgeiswyr o ran 'gwella' ceisiadau.

4. Dylai unrhyw ffioedd sy'n daladwy o ran gwaith a wneir gan Cyfoeth Naturiol Cymru cyn y cam ymgeisio ffurfiol fod yn daladwy ar ôl derbyn cyngor prydlon a chywir yn unig. Mae'r lefelau gwasanaeth presennol a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygwyr ynni dŵr ymhell iawn o unrhyw beth y byddai unrhyw un yn fodlon talu amdano.

Ni ddylid gofyn i ymgeiswyr ynni dŵr dalu costau Cyfoeth Naturiol Cymru tra bod gweithrediad trwyddedu ynni dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru yn dal i fod mor aneffeithlon. Mae'n rhaid cael gostyngiadau i gostau trwy welliannau effeithlonrwydd cyn y gellir ystyried ffioedd allanol o ddifrif.

5. Pe gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu gwasanaeth cyn-ymgeisio a oedd yn ychwanegu gwerth i ymgeiswyr, yna byddai angen i'r ffioedd y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried eu codi fod yn gymesur, gan nad yw £125 yr awr yn awgrym realistig, a hefyd, byddai angen i ymgeiswyr fod â rhywfaint o reolaeth dros y gwariant yr oeddent yn amlygu eu hunain iddo.

6. Er enghraifft, byddai angen i ymgeiswyr allu cymeradwyo'r personél a fyddai'n cael eu haseinio i'w hachosion; byddai angen eu hysbysu'n aml am gostau yr aethpwyd iddynt; a dylai fod ganddynt hawl i dderbyn amcangyfrifon cost ymlaen llaw a ddylai rwygo mewn cyfraith [gyda lle rhesymol i gymryd camgymeriadau i ystyriaeth a lle nad oedd cwmpas y gwaith yn newid].

Y cwbl y mae'r amodau hyn yn ei wneud yw adlewyrchu arfer rhesymol a welwyd mewn diwydiannau gwasanaethau proffesiynol yn y sector preifat. Dylid nodi y byddai gan yr ymgeisydd/cleient mewn achos o'r fath y fraint hefyd o ddewis pa sefydliad i'w benodi a pha un a ddylai benodi o gwbl yn aml. Mae'r rhyddid hwn yn ychwanegu'n sylweddol at barodrwydd yr ymgeisydd/cleient i dalu.

Trant – Dim sylw

BGCBC – Dim sylw

CIWM – Bydd darparu cyngor cyn-ymgeisio yn fanteisiol i geisiadau cyfleusterau gwastraff pan fo'r cynnig yn anodd o ran cydymffurfiaid â safonau rheoleiddio. Byddai hyn hefyd yn fanteisiol pan nad oes gan yr ymgeisydd fynediad at y wybodaeth dechnegol angenrheidiol i lunio cais yn cynnwys y lefel angenrheidiol o fanylion. Bydd darparu'r cyngor hwn yn cynorthwyo gyda'r broses ymgeisio ac yn lleihau pa mor aml y mae'n rhaid i staff Cyfoeth Naturiol Cymru ofyn am wybodaeth ychwanegol er mwyn gallu gwneud penderfyniad ar drwydded.

CCBC – Dim sylw

Bowen – Dim sylw

WESA – Rydym yn cefnogi'r ddarpariaeth o wasanaeth cynghori cyn-ymgeisio. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r lefel briodol o gyngor technegol fod yn gyson a chael ei darparu'n brydlon.

MPA – Rydym yn nodi'r cynigion i gyflwyno Gwasanaeth Cyngor Dewisol. Mae'n hanfodol bod dyletswyddau i gyflawni cyfrifoldebau statudol ar gyfer cynllunio a thrwyddedu yn parhau i gael eu heithrio o bob ffi, ac mae hyn yn cynnwys cyfrifoldebau ffurfiol Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Reoliadau Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a'r Gorchymyn Gweithdrefn Rheoli Datblygiad. Mae'n rhaid i ymatebion Cyfoeth Naturiol Cymru o dan y rheoliadau hyn fod yn fanwl, yn ystyriol ac yn gynhwysfawr i gyflawni'r dyletswyddau fel ymgynghorai statudol.

Pan ddefnyddir y DAS, mae'n rhaid i'r holl gyngor a roddir rwyng ym Cyfoeth Naturiol Cymru os na fydd paramedrau'r mater arfaethedig yn destun unrhyw newid perthnasol.

Ystyrir bod y ffi arfaethedig o £125 yr awr yn ormodol, yn enwedig gan nad oes gan ymgeisydd sy'n gofyn am gyngor gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw ddewis ond defnyddio Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y cyngor. Mae'n gwsmer caeth i bob pwrpas, ac mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru fonopoli dros y cyngor y gofynnir amdano. Hefyd, mae'r ffigur yn llawer mwy na chost gyfartalog yr awr ymgynghorydd ecolegol profiadol, sy'n gyffredinol yn hanner yr hyn sy'n cael ei gynnis gan Cyfoeth Naturiol Cymru nawr.

Mae'n siomedig nad oedd y ddogfen ymgynghori wedi ei hategu gan asesiad effaith rheoleiddiol i ddangos tryloywder ynghylch strwythur y ffioedd a sut y mae'r rhain wedi cael eu penderfynu, yn ogystal ag ystyried effeithiau allanol y ffioedd arfaethedig.

Edrychwn ymlaen at gael ein hymgyngori ar gwmpas a natur unrhyw gytundebau safonedig ac unrhyw ganllawiau ategol cyn gweithredu'r gwasanaeth.

DCWW – Rydym yn cefnogi'r dull amlinellir gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori yn gyffredinol, ac rydym wedi ein calonogi gan y datganiadau eglur y byddai'r gwasanaeth hwn wedi'i seilio ar ganllawiau cadarn sydd ar gael yn rhydd ac nad yw manteisio ar y gwasanaeth hwn yn unrhyw sicrwydd y bydd trwydded yn cael ei chyflwyno.

Rydym o'r farn fod rhinwedd o gael cyfradd ratach ar gael i gynorthwyo sefydliadau elusennol neu ddielw sy'n ceisio gwneud gwelliannau i'r amgylchedd, e.e. darparu cynlluniau y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr, ond efallai fod diffyg sgiliau technegol i wneud cais cymwys am drwydded. Dylai argaeledd a chymhwysedd ar gyfer cyfradd rhatach o'r fath fod yn ôl disgrisiwn Cyfoeth Naturiol Cymru.

NFU – Byddem yn pwysleisio y bydd y canlyniadau gorau i bob parti a'r amgylchedd yn cael eu sicrhau trwy weithio mewn partneriaeth; yn aml, gall cyngor cyn-ymgeisio am ddim ddatrys unrhyw fân broblemau cyn cyflwyno cais gan arbed amser ac adnoddau gwerthfawr i'r tîm trwyddedu yn yr hirdymor. Mae gennym bryderon y bydd y gost uchel yr awr yn atal busnesau ffem rhag defnyddio'r gwasanaeth.

Ymateb CNC

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymgysylltiad cynnar ac effeithiol gydag ymgeiswyr, ac rydym yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gall yr ymgysylltiad hwn ei wneud at lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rydym wedi ymrwymo felly i barhau â gwasanaethau cynghori sy'n rhagori ar ein hymrwymadau statudol. Fodd bynnag, mae'n gynyddol anodd cydbwysu'r gwaith o ddarparu adnoddau ar gyfer y cyngor dewisol hwn gyda'n gwaith statudol. Bydd cyflwyno ffioedd priodol am gyngor dewisol yn sicrhau y gallwn barhau i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid a darparu gwasanaeth cyson ledled Cymru.

Wrth baratoi'r gwasanaeth cyngor dewisol am ffi, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymgynghori â sefydliadau rheoleiddio eraill sy'n cynnis gwasanaeth tebyg, ac rydym wedi dysgu o wasanaethau cynghori eraill am ffi a ddarperir gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cwmpas

Bydd y gwasanaeth arfaethedig wedi ei gyfyngu i gyngor cyn-ymgeisio a ddarperir yn ôl disgrisiwn Cyfoeth Naturiol Cymru. Bydd darpariaeth barhaus y gwasanaeth cyngor dewisol hwn yn dibynnu arno'n cael ei ariannu gan ffi i adennill costau ei ddarparu. Ni fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn codi ffi am unrhyw wasanaethau cynghori y mae'n ofynnol i ni eu darparu am ddim trwy statud, nac oherwydd cyfarwyddiadau polisi Llywodraeth Cymru.

Hefyd, mae llawer o drefnau rheoleiddio sy'n rhan o'n cylch gwaith yn cynnis gwasanaethau cynghori cyfyngedig ar hyn o bryd yn rhan o'r ffi ymgeisio. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu parhau i gynnis y cyngor hwn, a bydd ei natur a'i gwmpas yn benodol i'r drefn.

Hefyd, nid yw Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu codi ffi am gyngor pan allai ymgeisydd ddisgwyl yn rhesymol i'r cyngor hwnnw fod ar gael yn rhydd ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft gwybodaeth mater o drefn y mae'n debygol y bydd ei hangen ar ymgeiswyr lluosog.

Wrth benderfynu pa un a ddylid cynnwys trefn reoleiddio yn y gwasanaeth cyngor dewisol am ffi, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu gyntaf cyfanswm a chwmpas cyngor y gallai ymgeisydd ddisgwyl yn rhesymol iddo gael ei gynnwys yn rhan o'r ffi ymgeisio. Bydd lled y cyngor penodol i drefn a ddarperir yn rhan o'r ffi ymgeisio yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan allanol cyn cynnwys trefn yn y gwasanaeth cyngor dewisol am ffi.

Bydd cwmpas y cyngor dewisol y mae'n briodol ei ddarparu yn benodol i'r drefn ond, fel rheoleiddiwr, mae'n rhaid i ni beidio â darparu unrhyw gyngor neu wasanaeth a allai ragfarnu penderfyniad ar gais neu gyfyngu Cyfoeth Naturiol Cymru mewn unrhyw ffordd wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol. Felly, bydd y gwasanaeth wedi ei gyfyngu i weithgareddau cynghori, ac ni fydd yn cynnwys paratoi adroddiadau i ymgeiswyr na chynnal asesiadau a ddylai fod yn rhan o'r cais. Fodd bynnag, ni fyddwn yn pennu amserlen na chyfyngiadau ar nifer yr oriau a fydd yn cael eu cynnig drwy'r gwasanaeth dewisol (cyn belled ag y bo adnoddau ar gael i ddarparu'r gwasanaeth).

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig y gwasanaeth dim ond pan fo'r timau sy'n gyfrifol am ddarparu'r cyngor rheoleiddio yn meddu ar y gallu technegol, y capasiti o ran adnoddau a'r capasiti rheoli i ddarparu'r cyngor cyn-ymgeisio yn unol ag amserlen a gytunir.

Bydd gofyn am gyngor a ddarperir yn rhan o wasanaeth cyngor dewisol am ffi Cyfoeth Naturiol Cymru ar sail disgresiwn yr ymgeisydd bob amser. Bydd ymgeiswyr yn parhau i fod yn rhydd i ofyn am gyngor o'r fath trwy foddau eraill, e.e. gan ymgynghoriaethau sector preifat, cyhoeddus neu academiaidd. Bydd ymgeiswyr hefyd yn parhau i fod â mynediad at gyngor sydd ar gael yn rhydd ar ein gwefan.

Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn adolygu sut yr ydym yn darparu'r gwasanaeth cyngor dewisol hwn dros amser, ac yn ceisio gwella'n barhaus sut yr ydym yn darparu cyngor i ymgeiswyr. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwersi ar waith sy'n cael eu dysgu o ddarpariaeth gychwynnol y gwasanaeth, ac yn trafod â'n cwsmeriaid i lywio ein penderfyniadau ar gynnwys trefnau rheoleiddio ychwanegol.

Canllawiau

Dim ond trefnau sy'n cyhoeddi canllawiau sy'n ddigon cadarn ac ar gael yn rhydd i gefnogi'r broses ymgeisio fydd yn cael eu hystyried yn addas ar gyfer y gwasanaeth cyngor dewisol am ffi. Felly, wrth ddatblygu'r gwasanaeth am ffi ar gyfer cyngor dewisol, byddwn yn adolygu canllawiau presennol sydd ar gael i ymgeiswyr (gan gynnwys canllawiau cyffredinol a phenodol i drefnau).

I drefnau sy'n cael eu cynnwys yn rhan o'r gwasanaeth dewisol am ffi, byddwn yn cyhoeddi canllawiau ar ba wasanaethau cyngor y gall ymgeisydd ddisgwyl eu derbyn am ddim, a pha wasanaethau cyngor dewisol ychwanegol fydd yn destun ffi. Byddwn hefyd yn paratoi canllawiau ar sut y gall ymgeiswyr gael mynediad at y gwasanaeth, a chyfrifoldebau priodol Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ymgeisydd.

Natur y cyngor a ddarperir

Bydd y gwasanaeth cyngor dewisol am ffi yn darparu cyngor yn unig, a chyfrifoldeb yr ymgeisydd o hyd fydd ystyried sut i weithredu orau ar sail y cyngor hwn o ran unrhyw gais. Hefyd, ni ellir dal Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am unrhyw benderfyniadau a wneir gan gyrff eraill a fydd â ffactorau eraill i'w hystyried ochr yn ochr â'n cyngor. Bydd unrhyw gyngor yr ydym yn ei ddarparu yn seiliedig ar y wybodaeth orau sydd ar gael ar yr adeg honno ac, os cyflwynir gwybodaeth wahanol neu ychwanegol yn rhan o unrhyw gais yn y dyfodol, rydym yn cadw'r hawl i newid ein safbwyntiau.

Fel sy'n ofynnol o dan ein rhwymedigaethau statudol, ni fyddwn yn penderfynu ar unrhyw agwedd ar gais yn ystod y trafodaethau cyngor cyn-ymgeisio. Byddai hyn yn mynd yn groes i'n rhwymedigaeth i beidio â gwneud penderfyniad ymlaen llaw neu ragfarnu canlyniad cais cyn iddo gael ei gyflwyno. Gall Cyfoeth Naturiol Cymru wneud penderfyniad ar gais dim ond pan fyddwn yn fodlon bod yr holl wybodaeth angenrheidiol wedi cael ei chyflwyno ac y byddwn yn derbyn y cais yn ffurfiol. Rydym yn cyfeirio at hyn yn gyffredinol fel y cais yn cael ei 'wneud yn briodol'. Mae'r cyfnod penderfynu statudol ar gyfer penderfynu ar geisiadau yn berthnasol dim ond ar ôl i Cyfoeth Naturiol Cymru dderbyn y cais yn ffurfiol.

Telerau ac amodau

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu cyfres o delerau ac amodau wedi'u safoni a fydd yn llywodraethu darpariaeth y gwasanaeth cyngor dewisol. Rydym yn bwriadu cyhoeddi copi o'n telerau ac amodau safonol ar ein gwefan, a fydd yn cynnig eglurder i ymgeiswyr ar sut y mae'r gwasanaeth yn gweithio.

Yn ogystal â'r telerau ac amodau safonol, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu 'dyfynbris' i'r ymgeisydd a fydd yn benodol i'r cyngor cyn-ymgeisio y gofynnir amdano. Bydd y dyfynbris yn amlinellu'r gweithgareddau penodol a fydd yn cael eu cwblhau gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth ddarparu'r cyngor, dyddiadau darparu bras, ac amcangyfrif o'r costau o ddarparu'r cyngor. Bydd y gwasanaeth a amlinellir yn y dyfynbris yn dibynnu ar yr ymgeisydd yn darparu'r wybodaeth dechnegol briodol i Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n angenrheidiol i Cyfoeth Naturiol Cymru allu cynghori'n effeithiol.

Bydd y telerau ac amodau a'r dyfynbris yn creu trefniant cytundebol rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ymgeisydd. Bydd y ddwy ddogfen hyn yn cynnig eglurder a thryloywder i'r ymgeisydd ac i Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch yr hyn a fydd yn cael ei ddarparu a faint y bydd yn ei gostio cyn dod i drefniant cytundebol. Ni fydd unrhyw ymrwymiad i'r ymgeisydd dderbyn y gwasanaeth a gynigir.

Pan fyddwn yn credu ei fod yn briodol, gallwn ddod i gytundeb wedi'i deilwra ar gyfer darparu cyngor dewisol (bydd hyn yn berthnasol i geisiadau mawr, aml-drefn a hirdymor yn unig fel rheol). Fodd bynnag, yn debyg i'r cytundebau mwy safonol, adennill costau fydd y sail ar gyfer ffioedd Cyfoeth Naturiol Cymru o dan unrhyw drefniant wedi'i deilwra.

Bydd y telerau ac amodau arfaethedig yn galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i godi ffi am y gwasanaeth dewisol, ac adennill ein costau, hyd yn oed pan fydd yr ymgeisydd yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cais (er enghraifft, pan fydd ein cyngor yn cael gwared yn y pen draw ar yr angen am gais trwy ystyriaeth briodol o faterion amgylcheddol).

Pan fydd ymgeisydd yn derbyn unrhyw gynnydd o gyngor dewisol am ffi, ni ddylid ystyried bod hyn yn adlewyrchu canlyniad unrhyw broses penderfynu ar gais yn y dyfodol.

Cyfradd ffioedd

Mae'r egwyddorion cyffredinol a nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, yn berthnasol i sut y darperir y gwasanaeth hwn. Mae'r canllaw hwn yn nodi mai adennill costau yw'r sail briodol ar gyfer codi ffi am gyngor cyn-ymgeisio dewisol y gofynnir amdano pan mai ni yw'r corff penderfynu hefyd.

Cyfrifir y gyfradd o £125 yr awr ar sail adennill costau llawn, h.y. mae'r gyfradd yn adlewyrchu'r holl gostau y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd iddynt wrth ddarparu'r gwasanaeth cynghori. Rydym wedi dewis defnyddio cyfradd gyfunol ar draws yr holl drefnau i gadw'r baich gweinyddol cyn lleied â phosibl, a fydd yn lleihau costau cyffredinol i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r ymgeiswyr yn y pen draw.

Mae'r gyfradd ffioedd yn gyson â'r ffioedd cyngor cyn-ymgeisio a amlygir yng nghanllawiau Ffioedd Trwyddedu Amgylcheddol presennol Cyfoeth Naturiol Cymru o £125 yr awr am gyngor cyn-ymgeisio dewisol ar wastraff a gosodiadau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol. Mae'r gyfradd fesul awr hon hefyd yn debyg i reoleiddwyr eraill, megis y canlynol:

Asiantaeth yr Amgylchedd

Yn codi £125 yr awr am gyngor cyn-ymgeisio dewisol ar wastraff a gosodiadau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol.

Natural England

Yn codi:

- £500 fesul cynghorydd am gyfarfod 90 munud (naill ai trwy alwad gynadledda neu gyfarfod wyneb yn wyneb mewn swyddfa neu ar safle'r datblygiad)
- £110 yr awr fesul cynghorydd am bob awr ychwanegol

Gellir ychwanegu ffioedd eraill at hyn hefyd, fel treuliau milltired.

Pryd fydd y ffioedd yn cychwyn?

Rydym yn bwriadu cychwyn y gwasanaeth am ffi o 1 Ebrill 2017, ar gyfer cyngor trwydded cyn-ymgeisio gwastraff a gosodiadau Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i gychwyn, a dim ond lle mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru yr adnoddau capasiti technegol ar gael i ddarparu'r gwasanaeth. Bydd trefnau pellach yn cael eu hymgorffori i'r gwasanaeth am ffi dros amser.

Cwestiwn 9. Beth yw eich barn ar gytundebau safonedig ar gyfer darparu'r gwasanaeth, ac a ydynt yn well na thrafodaethau sy'n canolbwyntio'n benodol ar geisiadau?

ICE – Mae hyn yn ymddangos yn dderbyniol; mae cytundeb dull safonedig yn ymddangos fel dull da.

St Pierre – Dim sylw

Innogy – Ydy, mae cydraddoldeb a thryloywder yn hanfodol.

Anhysbys – Gellid ystyried bod cytundebau safonedig yn fwy tryloyw na thrafodaethau penodol i gais, ac felly'n well na nhw.

RML – Dim sylw

UNIPER – Gallai hyn fod yn ddefnyddiol ar gyfer trafodaethau mawr neu gymhleth, ond nid yw'r mathau hyn o brosiectau yn arwain at ddulliau safonedig yn aml. Hoffem weld ragor o fanylion ar yr hyn sy'n cael ei gynig ar gyfer y cytundebau hyn a'r meysydd y byddent yn berthnasol iddynt.

CLA - Os yw'r cyngor yn eglur ac o natur safonol, yna dylai cytundeb safonedig fod yn ddigonol, a dylai gynorthwyo i gadw costau i lawr hefyd. Os nad yw'r cytundeb safonedig yn ddigon trylwyr, bydd yn arwain at broblemau a allai arwain at broblemau cyfreithiol. Mae angen i Cyfoeth Naturiol Cymru wneud hyn yn iawn a threulio amser yn ei berffeithio. Byddem yn awgrymu gweithio gyda rhanddeiliaid a phartïon â buddiant i sicrhau bod unrhyw gytundeb yn addas at y diben y'i bwriedir ar ei gyfer ac o werth masnachol.

DVW – Dim sylw

Ash – Dim sylw

Simon – Dim sylw

Balfours – Dim sylw

VCAC – Dim sylw

BHA – Dim sylw

Trant – Dim sylw

BGCBC – Dim sylw

CIWM – Efallai y bydd angen cytundebau safonedig a thrafodaethau penodol i safleoedd. Efallai y bydd meysydd sydd wedi cael sylw gwael yn gyffredin gan ymgeiswyr o sectorau penodol ar gyfer y trwyddedau angenrheidiol a fyddai'n elwa o ddull safonedig. Efallai hefyd y bydd ceisiadau penodol a fyddai'n elwa o ddull a drafodir; byddai'r rhain yn geisiadau cymhleth o fathau penodol o ddiwydiannau yn nodweddiadol.

CCBC – Dim sylw

Bowen – Dim sylw

WESA – Fel egwyddor gyffredinol, mae aelodau WESA o'r farn bod trafodaeth cyn-ymgeisio yn cael ei hystyried yn arfer da ac rydym yn pryderu y gallai'r opsiwn i sefydlu ffioedd penodol ar gyfer trafodaeth cyn-ymgeisio gael gwared ar gymheliad datblygwyr i barhau i gymryd rhan mewn trafodaeth cyn-ymgeisio.

Yn hytrach na thybio bod ymgynghoriad cyn-ymgeisio yn faich ar adnoddau Cyfoeth Naturiol Cymru, dylai Cyfoeth Naturiol Cymru gyfathrebu'r manteision y mae ymgynghoriad o'r fath yn eu cynnig o ran darparu adnoddau technegol i archwilio agweddau allweddol ar ddatblygiad cyn cyflwyno cais.

Er mwyn cynnig cymheliad effeithiol i ddatblygwyr barhau i gymryd rhan mewn trafodaeth cyn-ymgeisio, mae WESA yn awgrymu, yn berthnasol i faint y ffi ymgeisio, y dylid rhoi nifer benodol o oriau o drafodaeth cyn-ymgeisio "am ddim" i ddatblygwyr.

Byddai angen system hefyd lle byddai'r ffi premiwm yn cael ei had-dalu pe na bai'r gwasanaeth a nodir yn y ddogfen cyn-ymgeisio yn cael ei ddarparu'n brydlon wedyn.

MPA – Gweler Cw. 8

DCWW – Gweler Cw. 8

NFU – Gweler Cw. 8

Ymateb CNC

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 8 uchod.

Cwestiwn 10. Pe byddai CNC yn cynnig cyfraddau consesiynol, dan ba amgylchiadau y dylai'r consesiynau gael eu defnyddio?

ICE – I elusennau, gwasanaethau cyfyngedig, gweithrediadau cyfyngedig.

St Pierre – Dim sylw

Innogy – Sefydliadau elusennol a pherchnogion preifat lle mai llifogydd yw'r brif broblem.

Anhysbys – Dim sylw

RML – Dim sylw

UNIPER – Dim sylw

CLA – Dylai Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried ffyrdd y gallai cyfraddau consesiynol gael eu cynnig i'r rheini sy'n gweithredu busnes bach neu'n ymgeisio fel unigolyn preifat. Bydd angen ystyried y dewis o drothwy neu gyfradd y gostyngiad i'w chymhwyso yn ofalus.

DVW – Dim sylw

Ash – Dim sylw

Simon – Dim sylw

Balfours – Pan fo hanes da o gydymffurfriad AC mewn amgylchiadau nad ydynt yn fasnachol neu fusnesau bach neu unigolion preifat.

VCAC – Dim sylw

BHA – Dim sylw

Trant – Dim sylw

BGCBC – Dim sylw

CIWM – Gallai cyfraddau consesiynol fod yn briodol ar gyfer ceisiadau am gyngor cyn-ymgeisio ar gyfer ceisiadau gan sefydliadau corfforedig elusennol, cwmnïau elusennol (cyfyngedig trwy warant), cymdeithasau anghorfforedig neu ymddiriedolaethau.

Mae CIWM Cymru Wales yn cefnogi'r bwriad i Cyfoeth Naturiol Cymru ddechrau cyflwyno'r gwasanaeth am ffi o ran cyngor dewisol ar faterion cynllunio datblygiadau o 1 Ebrill 2017 ymlaen fel yr ymgynghorwyd arno yn 2016.

CCBC – Dim sylw

Bowen – Dim sylw

WESA – Dim sylw

MPA – Dim sylw

DCWW – Gweler Cw. 8

NFU – Dylai fod eithriad neu gyfraddau rhatach i fusnesau fferm.

Ymateb CNC

Gweler yr ymateb i Gwestiwn 8 uchod.

Cyffredinol

RML – Dim ond un pwynt allweddol i'w wneud o ran codi ffioedd. Rwy'n bryderus iawn eich bod, fel sefydliad a ariennir gan y cyhoedd, yn derbyn cyllid i weinyddu rheoliadau. Mae codi ffi ychwanegol i gyflawni'r dyletswyddau gweinyddol mater o drefn hyn yn ymddangos yn afresymol. Ceir perygl mawr y bydd cyrff cyhoeddus sy'n codi ffioedd yn cael eu hystyried fel siarcod mewn gorffwylledd bwydo gyda chyllideb y datblygwr yn cael ei llyncu gydag ychydig iawn i'w ddangos am yr arian.

Yr unig ffordd y gellir cefnogi codi ffioedd yw os ydych yn darparu eich arbenigedd a gwybodaeth i gynorthwyo'r rheini sy'n talu ffioedd. Wedi'r cwbl, arbenigedd a gwybodaeth yw'r hyn yr ydych yn honni sydd gennych chi. Os ydych yn cynnig arbenigedd a gwybodaeth am ffi felly, yna ydych yn barod i sefyll yn gadarn dros yr hyn a ddywedwch a bod yn atebol am gamgymeriadau neu gyngor gwael? Pan fyddwch yn cael eich ymgynghori yn ystod datblygiad cynllun, a wnewch chi wir ddarparu'r cyngor a'r wybodaeth y gofynnir i chi amdanynt, neu a wnewch chi roi'r hyn sy'n gyfleus ac ar gael yn rhwydd eisoes? Os byddwch yn rhoi cyngor am ffi ac yna'n dweud rhywbeth arall yn ddiweddarach heb reswm da, a allech chi fod yn esgeulus? A allai esgeulustod arwain at achosion cyfreithiol costus? Beth sy'n digwydd os byddwch wedi rhoi cyngor am ffi a bod gwybodaeth berthnasol newydd yn dod i'r amlwg? A wnewch chi wneud hon ar gael i'r sawl a dalodd y ffi wedyn? Byddai'n ymddangos mai dyna'r ffordd briodol o ymddwyn.

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru enw am fod yn araf i ymateb ac i fynd y tu hwnt i'r amser ymateb gofynnol yn aml. Nid fy lle i yw cynnig rhesymau am hynny, ond mae'n rhaid i mi wneud sylw ar un agwedd. Ceir tueddiad mewn sefydliadau mawr, o bob math a rhai sector cyhoeddus yn benodol, i faterion gael eu gadael yn nwylo unigolion, a phan fydd yr unigolyn hwnnw yn mynd ar wyliau, neu'n absennol oherwydd salwch neu'n rhannu swydd, mae'r mater yn cael ei roi ar saib. Mae'r oedi yn ddiangen o hir yn aml, ac nid oes unrhyw un arall yn fodlon rhoi sylw i'r mater a mynd i'r afael ag ef. Fodd bynnag, pan fydd rhywun yn cysylltu â'r sefydliad am oedi, yr ateb bob amser yw bod yr unigolyn i ffwrdd ac y bydd rhaid i'r mater aros tan ei fod wedi dychwelyd. Does bosib mai'r sefydliad sy'n gyfrifol ac nid yr unigolyn cyflogedig? Pan fyddwch yn codi ffioedd, bydd disgwyl i chi berfformio'n effeithiol fel sefydliad ac ni fydd defnyddio esgusodion am unigolion sydd i ffwrdd yn briodol mwyach.

Fel enghraifft o sut nad yw codi ffioedd bob amser yn gam doeth, mae gennym ddigonedd o brofiad sy'n dweud wrthym fod awdurdodau cynllunio, ers iddynt allu codi ffi am gyngor cyn-ymgeisio, yn aml wedi cymryd y ffi heb gynnig y nesaf peth i ddim amdani. Ar bron bob achlysur, mae'r cyngor wedi bod yn hwyr, yn gamarweiniol, ac mewn rhai achosion yn gwbl anghywir. Rwy'n tybio na fydd hyn yn digwydd gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Mewn un achos, roedd yr ymateb yn nodi nad oedd unrhyw wybodaeth i'w rhoi. Fel gweithwyr proffesiynol, mae'n rhaid i ni oll sefyll yn gadarn wrth ein cyngor a dylem gael ein talu'n deg, ond a oes gwrthdaro rhwng cyflawni swyddogaeth reoleiddio a derbyn ffioedd am gyngor? Rwy'n cynnig y sylwadau hyn yn y gobaith y byddant yn cael eu hystyried yn briodol ac y byddant o ryw gymorth i chi.

NFU – Rydym yn pwysleisio y gall ffermwyr yng Nghymru ddim ond darparu'r manteision lluosog y mae cymdeithas yn dymuno eu gweld ac ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau os bydd Llywodraeth Cymru a'i rheoleiddwyr yn cydnabod pwysigrwydd y sector a'i gyfraniad unigryw drwy'r fframwaith polisi a rheoleiddio. Rydym yn amlygu bod materion rheoleiddio o bwys mawr i'n haelodau; mae'n ychwanegu cost ac yn cymryd amser i sicrhau a dangos cydymffuriad. Yn gyffredinol, gall effaith gyfunol rheoleiddio danseilio hyder ac atal datblygiad busnesau fferm.

Mae'n hanfodol bwysig nad yw ffermwyr yng Nghymru, drwy'r fframwaith rheoleiddio a threfn codi ffioedd gysylltiedig, yn cael eu rhoi o dan anfantais gystadleuol o'u cymharu â'u cymheiriaid yn y DU a'r UE. Rydym yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymrwymo i nifer o egwyddorion allweddol i lywio gweithrediad y drefn codi ffioedd yng Nghymru. Yn benodol, rydym yn cytuno y dylai penderfyniadau am ffioedd fod yn dryloyw i'r rheini sy'n cael eu rheoleiddio a chadw ffioedd mor isel â phosibl ddylai'r nod fod, trwy ymgyrch barhaus i gynyddu effeithlonrwydd.

Hefyd, byddem yn amlygu bod rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru roi pwyslais cryf hefyd ar ansawdd y gwasanaeth y mae'n ei ddarparu i'w gwsmeriaid. Er ein bod yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfeirio at y ffaith eu bod yn adolygu eu gwaith er mwyn sicrhau bod prosesau yn effeithlon ac effeithiol, i gadw ffioedd mor isel â phosibl, mae NFU Cymru yn siomedig bod diffyg cynigion neu drafodaeth trwy gydol yr ymgynghoriad o ran sut y gellid gwella ei wasanaeth mewnol.

Yn gyffredinol, nid ydym yn credu bod egwyddorion o dryloywder neu effeithlonrwydd cynyddol yn cael eu hadlewyrchu drwy'r ymgynghoriad. Er ein bod yn nodi nad yw sylwadau wedi cael eu gwahodd ar 6.1 Gwasanaeth Cyngor Cynllunio Dewisol, byddai NFU Cymru yn ailadrodd ei alwad

am eithriad ar gyfer ffioedd i ddatblygiadau ar fferm, yn enwedig pan fo angen datblygu adeiladau a gweithrediadau i fodloni rheoliadau gan gynnwys gofynion amgylcheddol a lles anifeiliaid.

Materion eraill i'w nodi:

O ran 6.4 Taliadau Gweithgareddau Perygl Llifogydd, hoffem eglurhad bod gwaith sy'n cael ei wneud gan ffermwyr yn ystod argyfwng yn dilyn digwyddiad llifogydd yn dal i fod am ddim. Mae NFU Cymru hefyd wedi dadlau ers amser maith y dylai fod eithriad o ffioedd lle mae'r gwaith arfaethedig yn creu manteision perygl llifogydd y tu hwnt i rai'r ymgeisydd. Bydd dull o'r fath yn cefnogi ac yn annog ffermwyr i wneud gwaith cynnal a chadw sy'n cynnwys darparu gwasanaeth cyhoeddus.

I gloi, mae gan NFU Cymru rai pryderon sylfaenol o ran y newidiadau a gynigir i'r drefn codi ffioedd newydd a byddem yn pwysleisio'r angen i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal adolygiad manwl o bob un o'r trefnau i nodi cyfleoedd ar gyfer effeithlonrwydd. Dylid rhannu'r dadansoddiad hwn gyda'r diwydiant. Pe bai angen cynyddu'r ffioedd, yna mae angen gwneud llawer mwy o ymdrech i sicrhau bod y rhain yn dryloyw i gwsmeriaid drwy'r broses ymgynghori.

Ymateb CNC

Gweler yr ymatebion uchod.

Atodiad 3 Diwygiadau i'r cynigion cychwynnol

Cynllun ffioedd ar gyfer cronfeydd dŵr uwch mawr a reoleiddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.

Crynodeb

Mae'r cynllun ffioedd arfaethedig a ddisgrifir yma yn cydbwysu'r angen i Cyfoeth Naturiol Cymru adennill ei gostau rheoleiddio gyda'r effaith ariannol ar ymgymerydd cronfeydd dŵr, sy'n cael eu hunain wedi rhwymo yn sydyn i dalu gwerth tua £5,000 o ffioedd peirianwyr ar ôl cyflwyno deddfwriaeth newydd sy'n eu rheoleiddio am y tro cyntaf. Mae'r cynnig ar gyfer gweithrediad graddol yn ystod blwyddyn 2017-18 gyda'r holl elfennau ar waith erbyn 2018-19.

Mae Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn ddarn o ddeddfwriaeth diogelwch cyhoeddus sy'n ceisio diogelu pobl, eiddo a seilwaith trwy leihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â gollyngiad heb ei reoli o gronfeydd dŵr uwch mawr. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddyletswydd i sicrhau bod ymgymerydd cronfeydd dŵr³ yng Nghymru yn ufuddhau i'r gyfraith ac yn cydymffurfio â hi. Gwasanaeth i bobl Cymru yw hwn i

³ Ymgymerydd yw'r term cyfreithiol ar gyfer perchnogion a gweithredwyr cronfeydd dŵr fel y diffinnir yn Neddf Cronfeydd Dŵr 1975.

sicrhau bod argaeau a chronfeydd dŵr yn cael eu hadeiladu, eu cynnal, eu goruchwyllo, eu harolygu a'u datgomisiynu yn ddiogel o dan oruchwyliaeth peirianwyr cymwysedig.

Codwyd sawl mater i ni ein hystyried yn ystod ein hymgyngghoriad cyhoeddus, ac maent wedi hysbysu'r cynllun ffioedd ar gyfer cofrestru a gweithgareddau monitro cydymffurfiad a ddisgrifir isod ac a ddangosir yn Nhabl 1:

Tabl 1. Ffioedd arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2017-18, yn daladwy ar gyfer cronfeydd dŵr uwch mawr sy'n destun rheoleiddio o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975

Ffi gofrestru gychwynnol	
Cofrestru a Dynodiad Risg Cychwynnol	£510

Ffioedd Monitro Cydymffurfiad Blyneddol	
Cronfa Ddŵr Risg Uchel	£230
Cronfa Ddŵr Uwch Fawr (nad yw'n Risg Uchel)	£0

Mae'r ffioedd yn cynnwys dau newid i'n cynnig gwreiddiol sy'n cael eu cyfiawnhau isod:

- cyfnod o 6 mis ar gyfer cofrestru am ddim
- diddymu ffi gynhaliath flynyddol ar gyfer cronfeydd dŵr risg is

Un canlyniad sylweddol o'n gwaith yw rhoi hyder i'r cyhoedd bod argaeau a chronfeydd dŵr Cymru yn peri cyn lleied o risg â phosibl i'w diogelwch. Wrth gyflawni ein dyletswydd, rydym yn darparu cyngor a chanllawiau i'r gymuned cronfeydd dŵr ar yr hyn y mae'r gyfraith yn ei wneud yn ofynnol iddynt ei wneud. Gallai'r cyngor hwn gynnwys camau fel cadw gwybodaeth gyfredol ar ein gwefan, darparu nodiadau atgoffa i benodi ar gyfer arolygiad, gwirio statws mesurau diogelwch i'w cymryd, neu ymchwilio i waith anghyfreithlon a allai beryglu'r cyhoedd. Efallai y bydd angen weithiau ei gwneud yn ofynnol i ymgwymerwyr gymryd camau ac rydym wedi ein hawdurdodi i gyflwyno hysbysiadau gorfodi i wneud hyn. Nid yw'r gost i ni o gamu i mewn i gymryd camau yn ddiodyn yn hytrach nag ymgwymerwyr wedi ei chynnwys yn y cynllun ffioedd hwn. Yn hytrach, gallwn adennill y costau hyn gan yr ymgwymerwr yn uniongyrchol. Mae hyn yn golygu nad yw ymgwymerwyr sy'n cydymffurfio â'r gyfraith yn cymorthdal arfer gwael ymgwymerwyr eraill.

Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gymuned peirianeg cronfeydd dŵr, adrannau llywodraeth a'r cyhoedd i sicrhau bod gwersi yn cael eu dysgu ym mhob agwedd ar ddiogelwch cronfeydd dŵr, pa un a yw hynny trwy hysbysu am ddigwyddiadau neu ddarparu gwybodaeth am gronfeydd dŵr, eu defnyddiau a'u perfformiad.

Hyd yma, mae ein holl weithgareddau o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 wedi cael eu hariannu gan bwrs y wlad trwy ein Cymorth Grant gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynwyd deddfwriaeth yn ein galluogi i adennill ein costau. Mae'r cynllun ffioedd yn trosglwyddo'r costau hyn ymlaen i'r ymgwymerwyr cronfeydd dŵr sy'n gyfrifol am gadw eu hargaeau mewn cyflwr diogel, yn hytrach na gwneud i'r cyhoedd ehangach dalu trwy drethi cyffredinol.

Rhoddodd yr ymatebion i'r hymgyngghoriad dderbyniad cyffredinol gan ymgwymerwyr masnachol a chynghorwyr proffesiynol bod ein cynnig yn rhesymol. Fodd bynnag, roedd ymatebion a oedd yn annog 'eithriad' o ffioedd, neu ryw fath o fesur mantoli tebyg. Codwyd y rhain yn nodweddiadol gan ymgwymerwyr cronfeydd dŵr sy'n eiddo i unigolion neu'n cael eu rheoli gan unigolion lle nad oes unrhyw fantais fasnachol, neu grwpiau fel clybiau genweirio, lle teimlwyd y gallai ffioedd wneud eu gweithgareddau yn anghynaliadwy.

Ceir dros 300 o gronfeydd dŵr uwch mawr yng Nghymru, a chofnodwyd gennym fod 102 o ymgwymerwyr yn gyfrifol amdanynt ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Roedd 16% o'r ymgwymerwyr hyn yn unigolion preifat neu'n bartneriaethau, a'r gweddill yn gyrrff cyhoeddus neu'n sefydliadau

masnachol. Mae cyfran gynyddol o gronfeydd dŵr risg is mewn perchnogaeth breifat. Rydym o'r farn y bydd cyfran y berchnogaeth breifat, lle nad oes unrhyw incwm yn cael ei wneud o'r gronfa ddŵr, yn parhau i gynyddu ar ôl i gofrestrïadau cronfeydd dŵr llai ddod yn destun rheoliadau.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth gyflawni ei waith o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, yn mynd i gostau wrth fonitro ac adolygu'r holl gronfeydd dŵr uwch mawr, pa un a ydynt yn risg uchel, yn ddarfodedig, yn gronfeydd dŵr risg is, yn gronfeydd dŵr amddifad, a/neu'n rhai lle nad oes unrhyw weithgarwch masnachol. Mae'n rhaid ariannu'r costau drwy'r cynllun ffioedd neu o gymorth grant.

Cyd-destun cynllun ffioedd ochr yn ochr â newidiadau i ddeddfwriaeth

Mae diben Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 yn un o ddiogelwch cyhoeddus yn y pen draw, a diwygiwyd y gyfraith yn ddiweddar, sy'n gostwng trothwy capasiti cronfeydd dŵr o 25,000m³ i 10,000m³. Mae gorfodi cynllun ffioedd ar gyfer cronfeydd dŵr yn cyd-daro â'r newid i'r gyfraith sy'n gwneud pobl yn destun rheoliadau am y tro cyntaf. I'r cofrestrwyr tro cyntaf hyn, mae'n hynod debygol y bydd rhai cronfeydd dŵr sy'n perthyn i unigolion preifat, nad ydynt yn derbyn unrhyw incwm ohonynt, yn destun ffi uniongyrchol o tua £5,000 mewn ffioedd peirianwyr, a ffioedd amrywiol ychwanegol, yn dibynnu ar faint y gwaith sy'n ofynnol i sicrhau bod y gronfa ddŵr yn bodloni safonau diogelwch gofynnol. Mae'n rhaid i'n cynllun ffioedd fod yn wylidwrus o hyn a dylem geisio adennill ein costau trwy ddull sensitif.

Efallai y bydd ymgymerwyr y mae eisoes yn ofynnol iddynt gyflogi peirianwyr sifil cymwysedig i gyflawni gweithgareddau adeiladu, arolygu a goruchwyllo yn ymateb yn andwyol i faich ariannol ychwanegol nad yw'n sensitif hefyd, a allai eu cymell i gael gwared ar eu hargaeau heb oruchwyliaeth broffesiynol mewn ymdrech i leihau eu rhwymedigaeth. Er y byddai hyn yn drosedd, gallai'r gweithgaredd ei hun beryglu pobl ac eiddo. Mae'r cyd-destun yn amrywio yn dibynnu ar statws pob cronfa ddŵr o dan y Ddeddf Cronfeydd Dŵr cyn ac ar ôl diwygiadau deddfwriaethol fel y disgrifir yn [Nhabl 2](#) isod.

Cofrestru

Ers i'r newidiadau i Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975 ddod i rym ar 1 Ebrill 2016, rydym wedi mynd ati i nodi cyrff dŵr y mae'n bosibl y bydd rhaid eu cofrestru o dan y gyfraith newydd. Mae'r gweithgarwch wedi canolbwyntio ar hysbysu ymgymerwyr cronfeydd dŵr presennol, cysylltu ag ymgymerwyr cronfeydd dŵr â chapasiti hysbys o 10,000 metr ciwbig, neu gysylltu ag ymgymerwyr cronfeydd dŵr sydd wedi cael eu gostwng islaw'r trothwy cofrestru blaenorol o 25,000 metr ciwbig. Rydym hefyd wedi gweithredu ar sail gwybodaeth o archifau awdurdodau lleol ac Asiantaeth yr Amgylchedd.

Rydym o'r farn bod cyfathrebu â'r boblogaeth ehangach o bobl a allai fod yn berchen ar gronfeydd dŵr neu'n eu rheoli, fel y sector amaethyddol, pysgodfeydd a chlybiau genweirio ac ati, wedi bod yn llai nag yr ydym yn credu sy'n angenrheidiol i ganiatáu mynediad rhesymol i ymgymerwyr at ein cyngor a'n canllawiau. O'r herwydd, efallai nad yw'r grŵp hwn yn ymwybodol o hyd o'u rhwymedigaethau a'u bod yn dod yn ddarostyngedig i rwymedigaethau a ffioedd cofrestru gydag amser prin i ddarganfod ffeithiau priodol, i geisio cyngor cyllidebol neu i gyllidebu'n effeithiol. Fel y cyfryw, byddwn yn cynnwys cyfnod cofrestru am ddim o chwe mis, sy'n golygu y bydd gorfodi ffi gofrestru yn dod i rym o 1 Hydref 2017. I fod yn eglur:

- Ni fydd cronfeydd dŵr uwch mawr â chapasiti o 25,000m³ sydd eisoes wedi eu cofrestru â ni cyn Ebrill 2016 yn ddarostyngedig i Ffi Gofrestru.
- Ni fydd cronfeydd dŵr â chapasiti o 10,000m³ neu fwy, sydd wedi eu cofrestru o'r newydd ers mis Ebrill 2016 a chyn 1 Hydref 2017, yn ddarostyngedig i Ffi Gofrestru.
- Bydd cronfeydd dŵr â chapasiti o 10,000m³ neu fwy sy'n cofrestru o 1 Hydref 2017 yn ddarostyngedig i'r Ffi Gofrestru, fel y dangosir yn [Nhabl 1](#) uchod.

Mae'r gost o gofrestru yn cynnwys y gweithgareddau canlynol:

- Trafodaethau cyn-cofrestru gyda darpar ymgymerwr cronfeydd ddŵr. Derbyn dogfennau cofrestru, adolygiad, dilysiad a derbyniad i'r gofrestr gyhoeddus, gan gynnwys datrys hepgoriadau ac ymholiadau
- Ymweliadau safle anaml (tua chwech bob blwyddyn ar draws pob cronfa ddŵr), gyda pheiriannydd yn canfod ffeithiau
- Adnabod a chadarnhau ymgymerwyr lluosog

- Dynodiad Rhagarweiniol, gan gynnwys astudiaeth desg, adolygiad gan beiriannydd cymwysedig, ac ymweliadau safle o dan rai amgylchiadau, hysbysiad am y dynodiad i'r ymgymwrwr
- Derbyn a gwerthuso sylwadau yn erbyn dynodiad rhagarweiniol a hysbysu'r ymgymwrwr am y Dynodiad Terfynol
- Adolygiad cyfnodol o'r dynodiad risg

Tabl 2: Dangos gwahanol effeithiau cynllun ffioedd ar gyfer cronfeydd dŵr

17

m³ wedi cofrestru eisoes Rheoleiddiwyd y cronfeydd dŵr hyn ers y 1980au ar y cyfan a'r rhain yn aml yw'r cronfeydd dŵr mwy, cyfarwydd a ddefnyddir at ddibenion cyflenwi dŵr a masnachol.

m³ wedi cofrestru eisoes

- Cronfeydd dŵr llai yw'r rhain, sy'n aml ag amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau, neu ddim o gwbl. Mae'n debygol y byddwn yn cofrestru 70% o'r rhain erbyn 1 Ebrill 2017.
- Nid ydynt erioed wedi cael eu rheoleiddio o'r blaen. Mae'n rhesymol tybio y bydd cyfran fwy o'r cronfeydd dŵr llai hyn yn eiddo preifat ac na fydd ganddynt unrhyw ddiben penodol.
- Os caiff eu dynodi'n risg uchel, bydd yn rhaid i'r ymgwymerwyr dalu'r costau canlynol am gyflogi peirianwyr ar unwaith (£ tua):
 - £1,500 y flwyddyn – peiriannydd goruchwyllo
 - £3,500 – peiriannydd arolygu yn ystod blwyddyn gyntaf y dynodiad, ac o leiaf bob deng mlynedd wedi hynny (cyfartaledd o 8-9 mlynedd ar hyn o bryd)
 - Byddant hefyd wedi eu rhwymo i roi mesurau diogelwch ar waith am gost amrywiol. Gan mai hwn fydd yr arolygiad statudol cyntaf erioed, mae'n hynod debygol y byddant yn cael eu hwynebu gan sawl mesur i ddod â'u cronfa ddŵr i safonau diogelwch derbyniol.

10,000 m³ heb gofrestru Yr un sylwadau ag uchod ar gyfer 10,000 m³ wedi cofrestru eisoes. Nid ydym wedi cyfathrebu'n foddhaol â'r boblogaeth hon eto ac felly mae'n afresymol disgwyl cofrestrriad yn ystod y cyfnod "am ddim" presennol.

Ffi gofrestru

Nid oes ffi gofrestru yn ofynnol – mae'r gwaith hwn yn gyflawn. Dynodiadau risg wedi'u cwblhau erbyn dechrau'r haf, tua 90% yn risg uchel, 10% yn risg isel.

Nid oes ffi gofrestru yn ofynnol gan eu bod wedi cofrestru eisoes cyn 1 Ebrill 2017.

Yn tybio'r un ganran o risg uchel:isel.

Ffi gofrestru yn daladwy o 1 Hydref 2017 ac yn cynnwys costau dynodi risg.

Rydym o'r farn y bydd ymgwymerwyr cronfeydd dŵr sydd heb gofrestru wedi derbyn digon o wybodaeth a chyngor i wneud penderfyniad ar eu sail. Gellid ystyried hefyd bod cofrestru ar ôl 1 Hydref yn drosedd.

Ffi cydymffuriad flynyddol

Dechrau talu ffi gynhaliath flynyddol yn seiliedig ar ddynodiad risg:

- Risg isel: 1 Ebrill (hysbyswyd rhai eisoes)
- Risg uchel: dechrau'r haf (proses gyfreithiol o ddynodi i gwblhau)

Gallai dynodiadau risg gymryd blwyddyn i'w cyflawni, felly bydd ffi gynhaliath flynyddol yn cael ei chyflwyno tua diwedd 2017-18.

Bydd dynodi yn cychwyn ar ôl cofrestru ac yn cymryd hyd at flwyddyn, a bydd ffioedd cynhaliath blynyddol yn daladwy wedi hynny.

Bydd costau'n daladwy ar y cam hwn trwy ddynodiad (ffi gofrestru) yn unig. Nid oes unrhyw gostau cydymffurfio tan y dynodiad terfynol.

Ffioedd monitro cydymffuriad blynyddol

<£3,000 yw'r incwm blynyddol a ragwelir o ffi a godir ar gronfeydd dŵr risg is. Mae ein gwaith ar y cronfeydd dŵr risg is hyn yn cynnwys monitro datblygiadau i lawr yr afon i sicrhau bod y dynodiad risg yn dal i fod yn briodol. Nid yw hyn o fudd i'r ymgwymerwr, ond mae'n ychwanegu at ein gwybodaeth am berygl llifogydd. Ar y llaw arall, byddai datblygiad i lawr yr afon yn cael effaith niweidiol o gynyddu canlyniadau llifogydd ac achosi i gronfa ddŵr gael ei dynodi fel cronfa ddŵr risg uchel, a byddai'r ymgwymerwr wedi ei rwymo wedyn i ffioedd blynyddol a chostau peirianeg uwch. Rydym hefyd o'r farn y bydd gwerth yr incwm cymharol fach hwn yn cael ei erydu neu ei orbwyso gan yr amser ychwanegol sydd ei angen ar gyfer cynghori, gweithredu a chyflawni gwaith adennill costau.

Rydym wedi newid y ffioedd felly i gael gwared ar y ffi monitro cydymffuriad flynyddol i gronfeydd dŵr nad ydym yn credu eu bod yn gronfeydd dŵr risg uchel – gweler [Tabl 1](#) uchod. Ni fydd y costau hyn yn cael eu hychwanegu at y ffi gofrestru, na ffioedd blynyddol ar gyfer cronfeydd dŵr risg uchel, a byddwn yn ceisio ariannu'r gyfran fach hon o weithgarwch trwy gymorth grant. Mae hyn hefyd yn adlewyrchu mai'r cyhoedd ehangach sy'n elwa o'r gyfraith hon mewn gwirionedd, nid yr ymgwymerwr sydd â'r holl rwymedigaeth, ac ystyrir ei bod yn briodol bod y swm symbolaidd hwn yn adlewyrchu'n rhannol y sicrwydd y maent yn ei gael.

Gwnaeth sawl ymateb awgrymiadau ar gyfer ffioedd gostyngol, neu'r ddarpariaeth o eithriadau, ar gyfer cronfeydd dŵr nad ydynt yn fasnachol sy'n darparu manteision amgylcheddol ehangach, fel arafu dŵr llifogydd. Mae hyn yn rhywbeth yr hoffem ei werthuso'n well yn rhan o'n rheolaeth gynaliadwy o adnoddau naturiol ac nid ydym wedi ei ystyried ymhellach yn y cynllun ffioedd ar gyfer 2017-18.

Gofynnwyd am eglurder ynghylch y dyddiad y bydd ffioedd cynhaliaeth yn daladwy ohono. Mae'r ffi gynhaliaeth wedi ei chysylltu'n uniongyrchol â'r dynodiad risg ar gyfer y gronfa ddŵr. Bydd y ffi gynhaliaeth flynyddol briodol yn daladwy o'r dyddiad y mae Hysbysiad o Ddynodiad Terfynol a ddarperir i'r ymgwymerwr yn dod i rym, yn amodol ar unrhyw apêl ffurfiol y gallent ei gwneud.

Dadansoddiad costau

Gofynnir i ni ddarparu esboniad o'r gwaith sy'n ofynnol i fonitro cronfeydd dŵr, sydd i bob pwrpas yn asedau sefydlog nad ydynt yn destun newid sylweddol o flwyddyn i flwyddyn.

Nid yw'r cynllun ffioedd yn neilltuo costau i'r lefel o weithgarwch a briodolir i gronfeydd dŵr neu ymgwymerwyr penodol; yn hytrach, mae'r ffioedd yn gyfran o gyfanswm y gost gwasanaeth rheoleiddio cronfeydd dŵr Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ei rhannu ymhlith yr ymgwymerwyr ar gyfer cronfeydd dŵr uwch mawr. Nid yw'n cynnwys unrhyw ystyriaeth o berfformiad unigol yn erbyn cydymffuriad.

Rhestrir y gweithgareddau yr ydym yn codi ffi amdanynt isod:

- Llundio a chynnal cyngor a chanllawiau ategol cyffredinol
- Darparu cyngor penodol i safle (o'r swyddfa) i ymgwymerwyr; wedi'i gyfrifo ar sail 2 awr o gyngor ar gyfer 15% o bob cronfa ddŵr uwch fawr y flwyddyn
- Cyfarfodydd safle i ddarparu cyngor penodol i ymgwymerwyr; wedi'i gyfrifo fel 5% o gronfeydd dŵr risg uchel y flwyddyn
- Darparu cyngor penodol yn ymwneud â therfynu a gadael; wedi'i gyfrifo fel 4% o gronfeydd dŵr risg uchel ac 1% o gronfeydd dŵr risg is y flwyddyn
- Darparu negeseuon i atgoffa ymgwymerwyr am derfynau amser statudol sydd ar fin dod; wedi'i gyfrifo fel 1.5 diwrnod yr wythnos
- Derbyn, adolygu a chofnodi'r holl adroddiadau, tystysgrifau, apwyntiadau a gohebiaeth arall ar gyfer gweithgareddau o dan Adran 6, 7, 10, 11, 12

Mae ein costau adferadwy yn gyfreithiol ar gyfer y gweithgareddau hyn yn dod i gyfanswm o £55,000, a ddarperir gan y Grant Cymorth ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys costau gweithgareddau newydd y mae'n rhaid i ni eu cyflawni yn unol â'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr ddiwygiedig, er enghraifft cofrestru cronfeydd dŵr sydd newydd ddechrau gael eu rheoleiddio a dynodi risg.

Rydym hefyd yn cyflawni nifer o weithgareddau *nad* yw eu costau yn cael eu hadennill drwy'r cynllun ffioedd, sef:

Gweithgareddau gorfodi

Darparu cyngor penodol i safle ar gyfer ymgymerwyr cronfeydd dŵr ar faterion gorfodi, gan gynnwys cyfarfodydd safle a chael cyngor gan beirianwyr sifil cymwysedig, cyngor cyfreithiol ar baratoi hysbysiadau, llythyrau rhybudd neu ffeiliau achosion gorfodi.

Rheoli ac adrodd ar berfformiad

Adolygiadau gwaith achos a monitro perfformiad, yn arwain at gynnal y Gofrestr Gyhoeddus o Gronfeydd Dŵr Uwch Mawr a llunio'r Adroddiad Bob Dwy Flynedd statudol i'r Gweinidog.

Ymateb i ymgynghoriadau, a cheisiadau am wybodaeth

Darparu cyngor a sylwadau ar geisiadau ar gyfer amrywiaeth o gydsyniadau, fel cynllunio, ynni dŵr ac ati. Darparu ymateb i geisiadau am wybodaeth am ddata a gwybodaeth cronfeydd dŵr gan roi sylw dyledus i ddiogelwch data personol, masnachol a chenedlaethol.

Rheoli digwyddiadau

Cynnal cofrestrau ymateb brys a darparu cyngor i Fforymau Cydnerthedd Lleol.

Cynrychioli Cyfoeth Naturiol Cymru ar lefel y DU a rhyngwladol trwy:

- Grŵp Cyswllt ar y Cyd Adrannau Llywodraeth ac Awdurdodau Rheoleiddio
- Grŵp Cynghori ar Ymchwil Diogelwch Cronfeydd Dŵr y DU
- Pwyllgor Deddf Cronfeydd Dŵr Sefydliad y Peirianwyr Sifil
- Grŵp Rheolwyr Cronfeydd Dŵr y DU
- Cymdeithas Argaeau Prydain
- Comisiwn Rhyngwladol ar Argaeau Mawr

I gywiro'r honiad y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r cynllun ffioedd i ariannu'r gwaith o gynnal ein cronfeydd dŵr ein hunain, hoffem egluro bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru ddwy swyddogaeth o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, sef awdurdod gorfodi ac fel ymgymerwr ar gyfer nifer o gronfeydd dŵr. Mae'n rhaid i ni fodloni'r un safon o ddyletswydd ag ymgymerwyr eraill ac nid ydym wedi ein heithrio o reoliadau.

Yn ein cyfrifiad o gostau adferadwy, rydym wedi eithrio'r gost o reoli a gweithredu ein cronfeydd dŵr, a'r gost o'n gwaith o'u rheoleiddio. Nid ydym yn ceisio adennill cost y gweithgareddau hyn gan ymgymerwyr sy'n talu ffioedd felly. Cymerwyd hyn i ystyriaeth yn y ffioedd arfaethedig gwreiddiol.

Dynodi risg

Tynnwyd ein sylw drwy'r ymgynghoriad at y ffaith y gallai'r broses a ddefnyddiwyd i benderfynu ein dynodiadau risg yn rhy geidwadol i'n galluogi i sicrhau cymaint o incwm â phosibl o'r ffioedd cynhaliath blyneddol haen uwch. Mae hyn yn anghywir. Sefydlwyd y broses dynodi risg yn dilyn ymgynghoriad ar draws Cymru a Lloegr a gynhaliwyd cyn sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru, a chyn i unrhyw awdurdod gael ei roi i adennill ein costau priodol.

Mae ein dynodi risg yn defnyddio egwyddor ragofalus lle mae diffyg tystiolaeth neu amheuaeth ynghylch eglurder y dystiolaeth yn ein cymell i ddynodi cronfa ddŵr fel cronfa ddŵr risg uchel os byddwn yn meddwl y gallai bywyd dynol gael ei beryglu pe bai dŵr yn cael ei ryddhau heb reolaeth. Mae'r egwyddor hon yn cael yr effaith o ymddangos yn rhy geidwadol, ond rydym yn rheoleiddiwr ar sail tystiolaeth a gallai cyflwyniad tystiolaeth ychwanegol gan ymgymerwyr leihau cyfran y cronfeydd dŵr risg uchel.

Yn ein cyfrifiadau o gostau, cyfrifwyd cyfran yr amser ar weithgareddau sy'n gysylltiedig â chronfeydd risg uchel ac nad ydynt yn risg uchel.

Nid ydym wedi cynnwys ffi am gyflwyno cais i adolygu dynodiad risg cronfa ddŵr. Nid ydym o'r farn y bydd hyn yn angenrheidiol yn ystod y flwyddyn gyntaf o ffioedd pan fydd dynodiadau'n cael eu hysbysu o'r newydd. Byddwn yn monitro arwyddocâd adolygiadau dynodi ac yn ystyried codi ffi am hyn yn y dyfodol.

Cyfrifoldebau partïon lluosog

Lle ceir ymgymerwyr lluosog â chyfrifoldebau o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975, byddwn yn codi un ffi ar gyfer y gronfa ddŵr. Bydd rhaid i'r partïon lluosog ddyrannu costau rhyngddynt eu hunain ac ni

fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gorchymyn nac yn argymhell y dyraniad hwn. Gallai hyn ailadrodd unrhyw gytundebau sydd ar waith ar gyfer rhannu costau peirianwyr.

Cododd yr ymgynhoriad bryder na fydd rhai ymgymeryr, a chwmnïau cyfyngedig yn gyffredin, yn gallu talu anfonebau rhannol. Rydym o'r farn bod hwn yn ddigwyddiad prin, ond byddwn yn cyfarwyddo'r ymgymeryr i gyflwyno cytundeb wedi ei lofnodi mewn achosion o'r fath, yn dangos y dyraniad i'w neilltuo i bob ymgymeryr.

Mae'n un o ofynion Deddf Cronfeydd Dŵr 1975 bod ymgymeryr yn sicrhau bod eu cronfeydd dŵr wedi eu cofrestru'n gywir ac mae hyn yn cynnwys darparu enw a chyfeiriad yr ymgymeryr. Mae o fudd i'r ymgymeryr eu hunain sicrhau bod yr holl ymgymeryr wedi eu cofrestru'n gywir.